

Dathlu 50 mlynedd Ysgol Llanhari



Cynhaliwyd llu o weithgareddau dros y flwyddyn diwethaf i ddathlu 50 mlynedd ers agor Ysgol Llanhari. Nos Sadwrn, 4 Ebrill, daeth athrawon a chyn-ddisgyblion o bob cyfnod o hanes yr ysgol i wledd arbennig yng Ngwesty'r Fro. Cafwyd anerchiadau gan gyn-brifathrawon a perfformiad arbennig gan Gôr Tadau Llantrisant.

Parhad tudalen 23 >

Diwrnod i'w Gofio



Roedd yr haul yn tywynnu ar ddydd Sadwrn y 5ed o Ebrill, yn arbennig felly ar chwaraewyr Pontypridd wrth iddynt gael eu coronni fel pencampwyr Cwpan Cenedlaethol Cymru yn Stadiwm y Principality.

Roedd cefnogwyr Ponty wedi teithio yn eu miloedd i'r brifddinas i ddilyn eu harwyr yn y rownd derfynol yn erbyn Cross Keys, a'r gêm yn cael ei darlledu yn fyw ar S4C.

Er i Ponty gael y gorau o'r chwarae am rannau helaeth o'r hanner cyntaf, methwyd nifer o gyfleodd i sgorio, gyda Cross Keys yn profi, fel y disgwyl, i fod yn wrthwynebwyd digyfaddawd. Adlewyrchwyd hynny yn y sgôr ar yr egwyl gyda Ponty ar y blaen o bum pwynt yn unig – 10 i 5. Wrth i'r ornest fynd yn eu blaen, roedd Pontypridd yn amlwg yn magu hyder gan roi at ei gilydd gymalau gwefreiddiol o chwarae ar adegau, i sgorio cyfanswm o chwe cais wrth selio buddugoliaeth swmpus o 43 pwynt i 12.

Yn hwyrach yn y nos roedd y bariau yn Heol Sardis yn llawn ac yn swnllyd wrth i'r cefnogwyr groesawu yn ôl y garfan, gyda'r capten Cally James yn dal ei afael ar y Cwpan Cenedlaethol. Aeth y dathlu ymlaen i'r oriau mân.

Dyma'r seithfed tro yn hanes Pontypridd i'r clwb ennill y Cwpan, a'r tro cyntaf ers 2014, gan sicrhau fod y garfan bresennol yn hawlio eu lle yn oriel yr anfarwoliaeth.

Mae ymgyrch Ponty yn y gynghrair yn parhau, ond gyda Merthyr ar frig y tabl ac yn ffefrynnau i gael eu coronni yn bencampwyr. Parhau i ennill yw'r nôd i Bontypridd, gan fagu hyder o gofio am y diwrnod heulog yn Stadiwm y Principality pan gipiwyd y 'greal sanctaidd' – y Cwpan Cenedlaethol.

Am yr holl newyddion diweddaraf o Glwb Rygbi Pontypridd, galwch mewn i'r wefan: www.ponty.net neu ar y llwyfannau cymdeithasol @pontypridderfc

Guto Davies

Cantata Fodern



Nos Sul, 27 Ebrill perfformiwyd Gorffennwyd, Cantata Fodern gan Eilir Owen Griffiths, gan Gôr Aelodau Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth, gyda Band o Gerddorion Lleol. Yr Unawdwyer oedd Max Mohammad, Melissa Griffiths, Gwern Morus Williams, Efan Williams, Jona Milone a Hannah John a'r Llefarydd oedd Medi Evans.



tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn
23 Mai 2025

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafodelai.cymru>

Argraffwyr:



EVANPRINT

www.evanprint.co.uk

CYMRAG

**Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru**

**Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro**

Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes**

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

**I gael pris am unrhyw
waith addurno**



Dewis Megan ar gyfer rhaglen arloesol

Disgyblion Pencerdd 2025-2026



Brenig Davies



Elio Elain Maddocks



Mared Fflur



Megan Jones



Nwaw Maelor

Mae menyw o Ffynnon Taf ymhlith pump sy wedi eu dewis i fod yn aelod o ail garfan rhaglen farddoni arloesol.

Megan Jones o Stryd Tabor fydd yn rhan o Pencerdd Llenyddiaeth Cymru, rhaglen am ddim sy'n rhoi cyfle i gynganeddwy'r newydd ganolbwyntio ar y grefft o ddi-fri. Mae'n para am flwyddyn.

Yr aelodau eraill fydd Brenig Davies, Llio Elain Maddocks, Mared Fflur a Nwaw Maelor.

Bydd Megan yn mynychu cwrs preswyl yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn Ebrill dan arweiniad y Prifeirdd Mererid Hopwood a Ceri Wyn Jones cyn cael ei pharu gydag athro barddol am flwyddyn i dderbyn sesiynau mentora.

Gweithdai

Hefyd bydd y garfan yn derbyn cyfres o weithdai digidol yn ogystal â gofodau sgwennu i gwrdd â beirdd a rhannu eu taith i gynganeddu a chreu rhwydwaith gefnogol.

Daw Megan yn wreiddiol o Fethesda, Gwynedd, ac mae hi newydd gychwyn swydd fel swyddog polisi i Ofgem ar ôl cyfnodau'n gweithio yn y Cynulliad, Tŷ'r Arglwyddi a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Wedi saib hir o farddoni a llenyddiaeth mae Megan wedi ailafael yn yr awen, gan ennill Cadair Eisteddfod y Rhondda ym mis Tachwedd 2024. Roedd y fuddugoliaeth yn sbardun iddi barhau gyda'r barddoni, gan gynnwys ymgeisio ar gyfer cynllun Pencerdd Llenyddiaeth Cymru.

Mae Megan yn mwynhau treulio amser gyda'r teulu, darllen, coginio, ymweld â'r theatr, orielau celf ac amgueddfeydd, teithio, garddio, a mynd i'r afael â gwaith DIY.

'Meithrin'

'Rydw i'n edrych ymlaen yn arw at gychwyn cynllun Pencerdd er mwyn gallu clustnodi amser ac egni i geisio

datblygu a meithrin fy llais fel bardd,' meddai Megan. 'Ar ôl ailgychwyn barddoni yn lled-ddiweddar a phrofi llwyddiant yn Eisteddfod y Rhondda, rydw i'n awyddus i wneud yn fawr o'r cyfle i ddysgu, derbyn adborth, cyngor a chefnogaeth gan fardd profiadol.

'Drwy fod yn rhan o'r cynllun, rydw i'n gobeithio meithrin hyder wrth gynganeddu, ond hefyd yr hyder i arbrofi mwy o ran cynnwys, mynegiant, arddull a mesurau wrth farddoni. Erbyn diwedd y cynllun rydw i'n gobeithio y bydda i'n gallu cynganeddu'n hyderus, y bydda i wedi meithrin fy arddull fy hun fel bardd, ac y bydd gen i'r sgiliau i barhau i gymryd camau pendant ar fy nhaith i ddatblygu fel bardd.'

MH



**CLWB Y
DWRLYN**



**CYLCH
CADWGAN**

Eurgain Haf
enillydd y Fedal Ryddiaith
yn trafod ei nofel
Y Morfarch Arian

Nos Iau,
15 Mai 2025
am 8.00yh

Clwb Rygbi Pentyrch
Manylion pellach:
clwbwdwrllyn@pentyrch.cymru

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Llonni'r Pentre gyda Hetiau'r Pasg



Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i dair merch o flwyddyn chwech Ysgol Gynradd Pentyrch am ennill cystadleuaeth yr ymgom i ddysgwyr yn Eisteddfod Ranbarthol Caerdydd a'r Fro fis Mawrth. Nhw fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam fis Mai. Pob lwc iddyn nhw. Llongyfarchiadau hefyd i'w hathrawes Amy Coombes.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Nia merch Bronwen a'r diweddar Jim Morris ar enedigaeth Anwen ar yr 8fed o Fawrth. Mae Nia a'i dyweddi Dan wedi ymgartrefu yng Nghroesyceiliog ger Caerfyrddin erbyn hyn ac mae Anti Heledd a Lowri wrth eu bodau.



Clwb y Dwrlyn

Mwynhau noson gerddorol yng nghwmni Côr Plastaf wnaeth aelodau Clwb y Dwrlyn ym mis Ebrill. Yng nghanol prysurdeb bywyd ysgol cyflwynodd y merched talentog ac ymroddgar dan eu harweinydd Caryl Ebenezer, a'r cyfeilydd Branwen Gwyn, raglen ddeniadol ac amrywiol. Gwefreiddiwyd y gynulleidfa gan eu lleisiau aeddfed, cyfoethog a llwyddodd y côr, yr unawdwyr a'r deuwadwyr i greu naws arbennig iawn.

Lansiwyd albwm cyntaf y Côr yn Eglwys St Augustine Penarth ddiwedd Ebrill a dymunwn bob llwyddiant i'r albwm.

Golff

Llongyfarchiadau i Eirian Evans Rhydlafar ar gael ei hethol yn gapten ar y merched am eleni yng Nghlwb Golff Creigiau. Mae'n ddewis poblogaidd a fydd yn siŵr o gyflawni'r gwaith gyda'r un ymroddiad a brwdfrydedd ag a ddangoswyd ganddi tra oedd yn athrawes yn Ysgol Creigiau. Pob dymuniad da iddi hi ac i weddill y swyddogion sydd i gyd yn dod o Bentyrch – Bethan Griffith (ysgrifennydd) Les Jones (trysorydd) a Kate Crabtree (is-gapten).




Dathlu yn Trecelyn

Roedd aduniad blynyddol Clwb Rygbi Trecelyn ym mis Ebrill yn gyfle i lansio llyfr i nodi 60 mlynedd ers ennill y bencampwriaeth yn 1964-65. Roedd nifer o 'Dîm 65' wedi dod yn arbennig i'r digwyddiad yn cynnwys Gwilym Williams, Maesysarn, i ddathlu tymor orau erioed y Clwb Rygbi.



Cyril Evans, Dennis Hughes, Gwilym Williams, Terry Evans, Richard James, Dennis Hackling, Dewi Jones, Gordon Shipp, Ralph Thomas, Garnet Hearne, Tony Preece, Risdon Fry a Capten y tymor hwnnw, Elliot Williams.



Côr Plastaf

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y Mis : Allan James

Mwynder Morgannwg

Ymddengys y bydd y cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle i ddisgyblion astudio agweddau ar hanes a diwylliant eu milltir sgwâr eu hunain. Afraid dweud fod Bro Morgannwg mor agos y bydd modd i ysgolion y rhanbarth hwn elwa ar gyfoeth o ddogfennau a gwahanol gyhoeddiadau a fydd yn cynnig cyd-destun i amryfal fodiwlau neu gyrsiau. Ar wahân i erthyglau neu gasgliadau unigol byddai'r gyfres a baratowyd ar Iolo Morganwg a'i gyfnod gan y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn adnodd amhrisiadwy a hynny yn y ddwy iaith. Ar lefel lawer mwy cyffredinol, gellir olrhain y modd y newidiodd natur cymdeithas y Fro wrth i gymunedau amaethyddol grebachu ac wrth i'r gweithwyr fudo i gymoedd diwydiannol y Blaenau er mwyn edrych am well cyflogau.

Yn ffodus mae gennym dystiolaeth sy'n ein galluogi i ail-greu darlun o gymdeithas werinol sydd wedi hen ddiplannu y math o gymdeithas y gallai Thomas Hardy ei darlunio ar sail yr wybodaeth a drosglwyddwyd iddo gan aelodau ei deulu a'i gymuned. Oherwydd ganed Hardy yn 1840 i gymdeithas a oedd yn cyflym newid fel bod rhaid iddo ddibynnu ar dystiolaeth y genhedlaeth hŷn. Yr un oedd y sefyllfa ym Mro Morgannwg ar y pryd, yr hen ddull o fyw yn ildio i batrymau newydd a chynifer yn symud i'r ardaloedd glofaol. Yr her yw ail-greu hanfodion yr hen ddull o fyw gyda'r pwyslais ar waith y fferm, dylanwad y tymhorau a rhaglen o weithgareddau diwylliannol, a hynny ar sail yr amrywiaeth gyfoethog o atgofion sydd wedi goroesi.

Am ugain munud wedi wyth y bore ar y degfed o Fai 1938, darlledwyd rhaglen radio yn dwyn y teitl 'Where the Oxen Ploughed'. Nod y rhaglen oedd olrhain newidiadau cymdeithasol drwy ail-greu darlun o hen 'fwynder Margannwg' mewn cyfres o gyfweiliadau â hen gymeriadau'r Fro. 'Old timers broadcast' oedd y pennawd a ymddangosodd yn y Daily Express a'r gohebydd yn mynnu pwysleisio mor hynafol ddilys yw'r atgofion hynny a gyflwynir gan y pum siaradwr oedrannus : 'Five natives of the Vale of

Glamorgan, whose ages total 390 years, will broadcast a feature programme on Tuesday called, 'When the Oxen Ploughed'. '(Ceir llungopi o'r hysbyseb yn archifau'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan)

Cyfeirir yn benodol at y cyfranwyr, sef William Brewer (81) a'i wraig (75, Llanilltud Fawr), Ben Maddy 75, Ystradowen), Jerry Driscoll 75, Y Wig), a Richard Thomas (Sain Nicolas), yr hynaf a oedd yn bedwar ugain a thair. Yn naturiol ddigon roedd gan bob un ei stori bersonol ei hun, y gwŷr yn cyflwyno gwahanol agweddau ar hen orchwylion traddodiadol amaethwyr y Fro a Mrs. Brewer yn trafod hen ddulliau o deithio a bwrllwm diwrnod ffair yn Llanilltud Fawr ryw hanner canrif ynghynt. Yn ôl y disgwyl, tynnir sylw at yr hen arfer o aredig gyda'r ychen, y gorchwyl hwnnw a gysylltir yn ddiethriad â thrin meysydd breision hen gymunedau amaethyddol y Fro. A dyma rym a chyfaredd y cof yn caniatu i'r gwrandawyr hwythau rannu peth o ramant a chyffro'r gorffennol : 'Mr RICHARD THOMAS, Homri Farm, St. Nicholas, sprightly veteran of eighty three, is one of the few living agriculturists who ploughed the Vale's broad acres with a team of yoked oxen. In his talk he gives interesting peeps of a farmer's life some sixty years ago, and bravely sings a 'triban', or oxen song, which was an essential feature of ox-ploughing in the olden days.'

Yn atodiad i'r gwahanol atgofion ceir cyfresi o dribannau sy'n adlewyrchu amodau byw y cyfnod gyda'r pwyslais ar bwysigrwydd hynt y tymhorau a llwyddiant y cynhaeaf yn sgil aredig gofalus gan gathreiwyr, neu y sawl a yrrai'r ychen, holl gymunedau'r Fro. Bydd ambell driban yn dathlu gallu arbennig y cathreiwyr : Mae'n rhaid cael dyn deallus

I drin yr âr yn drefnus
Cyn dyco'r ddaear fyth ei ffrwyth
I dalu'r pwyth yn felus.

Ceir tribannau eraill sy'n sôn am wahanol fwydydd a rhai eraill sy'n llawn hiwmor a thynnu coes. Bydd ambell athronydd ymhlith y gwerinwyr a'r neges yn draddodiadol gyfoes :

Nôl magu hwch 'n y Blaena
Ac anfon hon I Frysta,
Er maint a wêl hi yma a thraw,
Yn hwch y daw hi adra.

Afraid pwysleisio, felly, pa mor ddiddorol werthfawr yw'r bennod arbennig hon yn hanes y rhanbarth.

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Mae'n fwriad gennym eleni i ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne ger Caerfyrddin, dydd Sadwrn, y 5ed o Orffennaf.

Bydd bws yn ein cludo i'r Ardd, siwrne o thua awr a chwarter. Ar ôl cyrraedd, bydd un o staff yr Ardd yn rhoi cyflwyniad byr ar hanes a gwaith yr Ardd. Yn dilyn hynnu, bydd cyfle i ni grwydro o gwmpas yn ein hamser ein hunain. Bydd "golf buggy" ar gael yno i gludo'r rheini sydd angen o fewn ardaloedd yr Ardd. (Nodyn i'r golffwyr yn eich plith – dyw hyn ddim yn esgus i ddod a'ch clybiau gyda chi!)

Ar ôl gorffen yn yr Ardd, byddwn yn galw yn y Butcher's Arms, Llanddarog am bryd o fwyd dau gwrs.

Manylion llawn a phrisiau i ddilyn.

Enwau i Carys Davies erbyn dydd Llun 28ain Ebrill ar yr hwyraf, os gwelwch yn dda. Manylion Carys – Ffon 07544 593820, ebost

carys.davies75@gmail.com

Wythnos Cynnig Cymraeg 12-16 Mai 2025

Hoffwn dynnu eich sylw at gynllun y 'Cynnig Cymraeg', sy'n cydnabod ymdrechion cyrff nad ydynt yn dod o dan Safonau'r Gymraeg i greu cynlluniau datblygu'r Gymraeg. Cyrff sector breifat, trydydd sector ac elusennau yw'r rhain yn bennaf. Mae'n gyfle iddynt ddangos eu bod yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio.

Caiff wythnos y 'Cynnig Cymraeg' ei chynnal rhwng 12-16 Mai a bydd sylw ar ein cyfryngau cymdeithasol i'r cynllun ac i'r sefydliadau hynny sydd wedi derbyn ein cydnabyddiaeth.

Mae dros 160 o sefydliadau bellach wedi derbyn y gydnabyddiaeth, ers ei sefydlu bum mlynedd yn ôl, ac mae rheiny yn cynnwys yr archfarchnadoedd Aldi a Lidl, Undeb Rygbi Cymru, NSPCC Cymru ac RSPB Cymru.

Mae'r sefydliadau sydd yn derbyn y Cynnig Cymraeg yn awyddus i bobl ddefnyddio eu gwasanaethau Cymraeg, felly hoffwn eich annog i wneud hynny pan mae'r cyfle yn codi.

Gellir gweld mwy am y cynllun ar ein gwefan -

www.comisiynyddygydraeg.cymru

a byddwn yn gwerthfawrogi eich cymorth i ledu'r gair!

PONTYPRIDD

Gohebydd - Jayne Rees

Llongyfarchiadau

Ganol Ebrill buodd Barry a Dorothy Todd, Graigwen yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt. Yn wreiddiol o Ystalyfera mae'r ddau wedi ymgartrefu yn ardal Pontypridd ers nifer o flynyddoedd. Oes dathlu gyda mordaith arall?

Merched y Wawr.

Cafwyd nos arbennig ym mis Ebrill pan ddaeth Lowri Cooke atom am yr ail waith yn hanes y gangen. Roedd hi'n sgwrsio yn afieithus am lefydd bwyta yn Rhondda Cynon Taf ac fe gafodd yr aelodau gyfle i sôn am eu hatgofion wrth flasu ychydig o bop Dandelion a Burdock!!

Cyfarfod mis Mai nos Iau 8fed am 7.30 pm. Dewch i chwarae Bingo ac ymuno mewn cwis.

Clwb llyfrau

Dewch i Lyfrgell Pontypridd fore Mercher, Mai 14eg am 10.30a.m. i drafod cyfrolau Cymraeg a Saesneg.

Gwellhad buan

Pob dymuniad da i Alun Reynolds, Maesycoed sy wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Brysiau nôl i Glwb y Bont.

Pob dymuniad da hefyd i Margaret Francis, Graigwen wrth iddi wella ar ôl llawdriniaeth ar ei llygad yn Llundain.

Sgwrsio yn Gymraeg

Mae'r Clwb Cymraeg yn mynd o nerth i nerth. Croeso i siaradwyr newydd o bob safon i ddod i Glwb y Bont am 7 o'r gloch nos Iau cyntaf bob mis. Cyfle i sgwrsio yn anffurfiol.

Mae nifer go dda hefyd yn mynychu y sesiynau bob bore Iau yn yr amgueddfa am 10.30 a.m.

Croeso mawr i bawb

Pob lwc

Mae Crisiant Mc Evoy yn cynrychioli Pontypridd a Thonysguboriau yng nghystadleuaeth Miss Cymru 2025. Mae Crisiant yn gyn ddisgybl Ysgol Evan James a Garth Olwg.

Eisteddfod Pontypridd

Mae edrych mlaen yn fawr at yr Eisteddfod leol newydd. Y lleoliad fydd Capel y Bont ar Heol Gelliwastad sef Eglwys St. David's United Reform gynt. Dewch i gystadlu neu gefnogi Ddydd Sadwrn Mehefin 28ain.

Chwiliwch ar y we am y Rhestr Testunau ac os am gystadlu cofrestrwch

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

Llongyfarchiadau i'r canlynol -

Rose Data enillydd cystadleuaeth rhaglen S4C Y Llais. Mae Rose yn wyres i Mrs Margaret Davies, 1 Oak Street.

Codi Purnell ar dderbyn cytundeb i ymuno â thîm rygbi'r Dreigiau. Bu Codi yn astudio ym Millfield yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ar ôl ennill ysgoloriaeth. Bu Codi hefyd yn chwarae i Gaerfaddon yn ystod y cyfnod hon ac yn ddiweddar fe chwaraeodd Codi i Gymru dan 19 yn erbyn Iwerddon lle sgoriodd e gais.



Codi Purnell

Tim pêl droed Red Valley

Am y tro cyntaf am gyfnod o dros 15 mlynedd enillodd y clwb yr "Aggregates Express Divisional Cup" drwy guro Llangynwyd 2-1 ar 4 Ebrill ym Mhenybont.



gyda form.jotform.com

Gweddnewidiad

Mae torri nifer o goed anferth wedi datguddio un o'r tai mwyaf yn Graigwen. Mae gwaith wedi dechre i adnewyddu tŷ ar gornel Tyfica Road. Buodd yr adeilad yn wag am nifer o flynyddoedd. Mae'n debyg taw'r perchnogion newydd yw un o gyn gystadleuwyr 'Welsh Home of the Year 2022'. Adnewyddwyd y tŷ hwnnw ym Mhontypridd ar ôl bod yn gartref gofal. Os wnaethoch wyllo'r rhaglen byddwch yn cofio am y 'décor' trawiadol! Sgw'n i beth yw hanes y tŷ a sut fydd hi'n edrych ar ôl cwblhau y gwaith mawr?

Y Sgrin Fawr

Braf yw cael mynd eto i wyllo ffilm yn lleol. Mae YMa a'r Muni bellach yn darparu cyfleoedd i wyllo ffilmiau. Fe fydd rhai o ddarllenwyr Tafod Elái yn cofio am y nifer o sinemâu oedd yn bodoli ym Mhontypridd ar un adeg. Y County, White Palace a Neuadd y Dref i enwi dim ond tri.

Byd Dawns

Verity Walters a enwebwyd ar gyfer y wobwr mawreddog Le Classique am ei llwyddiannau yn y byd dawns. Mae Verity yn mynychu YGG Tonyrefail.



Clwb y Bont

Dewch i gefnogi dau ddiwyddiad Cymraeg yn y Clwb yn ystod mis Mai. Mewn Cymeriad yn cyflwyno 'Gwen y Witch' nos Fercher, Mai 7fed am 7.30 p.m.

Nos Iau Mai 8fed am 8.00p.m. Al Lewis gyda Bethan Nia yn cefnogi.

Mae yna 3 gwely blodau o flaen y Clwb sydd angen eu llenwi a phlanhigion. Os oes planhigyn sbâr gyda chi yn eich gardd neu os hoffech gyfrannu un cysylltwch â Jayne

Gohebydd mis Mehefin yw Dilys Davies

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Llongyfarchiadau a dymuniadau da

Llongyfarchiadau gwresog i Beti Treharne sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn. Mwynha'r dathlu. Yn anffodus mi gafodd Beti ddamwain fach yn y tŷ gan frifo ei choes a thorri ei braich. Dymunwn wellhad buan iti gan obeithio na wnaiff y gwypm amharu'n ormodol ar ddathlu'r pen-blwydd.

Neuadd y Pentref yn dathlu

Mae Neuadd y Pentref yn dathlu'r 60oed eleni. Cafwyd cefnogaeth y pentrefwyr i adeiladu neuadd yn y Pentref a thalwyd amdani gan y pentrefwyr ac mae'n cael ei redeg gan bentrefwyr ar gyfer y gymuned. Gwaddol yr ymdrech a wnaed yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf gan y pentrefwyr yw bod gennym ni heddiw neuadd sy'n gartref i gyngherddau, partiŵn, ysgol feithrin, côr, ffeiriau a dosbarthiadau ioga i enwi ond ychydig o'r digwyddiadau. Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 21ain bydd digwyddiad yn cael ei drefnu i ddathlu'r pen-blwydd. Bydd cyfle am baned a chacen a gobeithir creu arddangosfa o luniau i gofnodi'r 60 mlynedd. Os oes gennych luniau neu atgof o ddigwyddiadau yn y Neuadd cysylltwch â Caroline Rees i rannu'r hanes.

Croeso Adre

Roedd yn hyfryd gweld Gwenno Rees adref o Fecsico gyda'i theulu dros wyliau'r Pasg. Pob hwyl i ti Gwenno.

Y TABERNAACL

Bedydd

Ar ddechrau'r Oedfa fore Sul, Ebrill 13eg cafwyd gwasanaeth bedydd y brawd a'r chwaer Gruffydd Harri a Luned Eiddwen Manisty. Cafwyd datganiad hyfryd ar ddechrau'r gwasanaeth gan Alys Thomas a Lyn West. Lyn hefyd oedd yng ngofal y ddefod ac mi gawsom gyflwyniad gwych ganddi. Daeth torf o deulu a ffrindiau'r teulu ynghyd i'r gwasanaeth ac fe gawsant barti i ddathlu yn Neuadd y Pentref yn dilyn y ddefod.

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Ann Dixey sydd ar fin derbyn triniaeth ar ei phen-glin yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan i ti.

Apêl yr Wyau Pasg

Daeth ymateb gwych i apêl yr Wyau Pasg eleni eto. Dosbarthwyd dros 300 o



Neuadd y Pentref Efail Isaf

Yn ystod y 1950au sefydlwyd cronfa i gasglu hanner coron (12.5c) y mis gan bawb yn y pentref ar gyfer neuadd newydd. Llwyddodd y pwyllgor, dan gadeiryddiaeth Mr Eric Harte, i ddenu grantiau bychain gan Gyngor Llanilltud Faerdref, ac erbyn cyrraedd y cyfanswm parchus o £4,000 teimlai aelodau'r pwyllgor yn ddigon hyderus i ddod i gyntundeb gyda chwmni adeiladu Dinas yng Nghasnewydd. Costiodd y neuadd ei hun £4,500 a chodwyd £600 arall trwy forgais i dalu am y deunyddiau a'r dodrefn.

Dechreuodd y gwaith ar yr adeilad yn 1964. Roedd y neuadd o gyllun prototeip gan gwmni Vic Hallam a fu'n codi nifer o neuaddau ac ysgolion yn y cyfnod hwnnw.

Cafodd y neuadd ei hadnewyddu'n sylweddol yn 2005. Yn 2010, gwelwyd ymestyn y maes parcio, a hynny'n bennaf trwy ymdrechion Gerald Hann, gyda chefnogaeth Cwmni Costain a chyfraniad sylweddol gan Gapel y Tabernacl.

wyau Pasg a hanner cant o becynnau hylendid i ddeuddeg elusen leol. Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth hael yr aelodau.

Cinio Bara Caws

Bydd cyfle i aelodau'r Oedfa Fore Sul, Mai 11eg fynd lawr i Neuadd y Pentref ar ôl yr Oedfa i fwynhau cinio Bara Caws. Trefnir y cinio i godi arian at Gymorth Cristnogol gan nad ydym bellach yn casglu o ddrws i ddrws. Croeso cynnes i chi ddod i gefnogi'r fenter.

Gwerthfawrogi gwaith Gwilym ac Eleri

Yn oedfa'r Pasg, fore Sul, Ebrill 20fed fe gyflwynodd Iwan Rowlands, cyn-gadeirydd Y Bwrdd lun o Gapel y Tabernacl gan yr arlunydd lleol Cliff Hewitt i Gwilym Huws a ymddeolodd o fod yn Ysgrifennydd yr eglwys yn ddiweddar. Cyflawnodd Gwilym ddeng mlynedd o wasanaeth clodwiw i'r eglwys fel ysgrifennydd ac mae'n dal i gyfrannu'n werthfawr drwy gyflwyno "Dolen y Tab" i'r aelodau'n wythnosol. Cafodd Eleri dusw o flodau am ei chyfraniad gwerthfawr hithau i ganiadaeth y cysegr. Diolch o galon i chi eich dau.

Merched y Tabernacl

Dydd Gwener, Ebrill 11eg fe deithiodd nifer o aelodau Merched y Tabernacl i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan i weld Arddangosfa y Teiliwr Bach. Gwaith cywrair yn arddangos cotiau, siacedi a chrysau unigryw wedi eu creu o hen garthenni gwlan. Catherine Davies yw'r "Teiliwr Bach". Dylunwraig a aned yng Nghaerdydd ond bellach yn byw yn Login, Sir Gaerfyrddin. Mae'n debyg fod ei thad-cu'n ffermwr defaid yn sir Benfro. Roedd y cotiau a'r siacedi wedi eu dylunio a'u gwneio'n gelfydd iawn ac wedi eu leinio yn hynod o grefftus. Un siaced a ddaliodd fy sylw'n arbennig oedd siaced y fodel Helen a gafodd ei chreu o garthen a wehdyddwyd yn Ffatri Wlan Star ger Llanfyrnach. Pentref yn agos iawn at yr ardal lle treuliais i fy mhlethendod. Ar ôl cael paned a chlonc yn y caffi, aeth nifer o'r merched am dro o amgylch yr adeiladau ac i fwynhau'r tywydd braf.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Crochendy a'r Amgueddfa yn Nantgarw ddydd Gwener, Mai 9fed. Byddwn yn cyfarfod yn y dderbynfa am 11 o'r gloch.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mai

Mai 4ydd Rhiannon Humphreys
Mai 11eg Y Parchedig John Roberts
Mai 18fed Miri Mawl (digwyddiad yn y prynhawn)
Mai 25ain Gwilym Williams.



Mae dyddiad Eisteddfod Pontypridd yn prysur agosau! Ar 28 Mehefin, rydw i a gweddill y pwyllgor yn gobeithio y byddwch chi'n gallu ymuno â ni yng Nghapel y Bont ar Ffordd Gelliwastad am ddiwrnod o hwyl a chystadlu. Mae'r system gofrestru bellach ar agor, ac ar gael ar ein gwefan ni, sef: <https://sites.google.com/hwbwymru.net/eisteddfod-pontypridd/ffurflen-gofrestru-a-chyflwyno-gwaith-cartref>

Yno hefyd, mi gewch chi holl fanylion y rhestr destunau. Mae yna gystadlaethau llwyfan – cerdd a llefaru – ynghyd â chystadlaethau llên a chelf a roc a phop – rhywbeth i bawb, gobeithio.

Criw bach o wirfoddolwyr sydd wedi dod at ei gilydd i drefnu'r eisteddfod – a hynny gan ein bod ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig parhau â'r cyffro a welwyd yn yr ardal yr haf diwethaf – a dros y blynyddoedd cyn hynny – wrth inni baratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, a ddaeth i benllanw ym Mharc Ynysangharad ym mis Awst. Mi ddaeth pobl leol at ei gilydd mewn ffordd cwbl anhygoel bryd hynny, i ddathlu diwylliant Cymru ar draws yr ardal, ac roedden ni'n awyddus i weld hynny'n parhau. Dyna arweiniodd at sefydlu'r Eisteddfod.

Ac yn awr, rydyn ni'n gofyn am eich cefnogaeth chi i gyd – nid yn unig ar y dydd Sadwrn yng Nghapel y Bont, ond drwy noddï cystadlaethau a rhoi cefnogaeth ariannol i'r Eisteddfod. Mae pob ceiniog yn cael ei gwerthfawrogi – gallwch gyfrannu drwy'r wefan hefyd: <https://sites.google.com/hwbwymru.net/eisteddfod-pontypridd/noddi-gwobrau>

A chadwch lygad ar ein tudalennau ar y gwefannau cymdeithasol – mi fydd yna fwy o wybodaeth yn nes at ddyddiad yr Eisteddfod ynglŷn â digwyddiadau cymdeithasol cyn ac ar ôl y diwrnod mawr.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich gweld ar Fehefin yr wythfed ar hugain.

Iolo Roberts
Cadeirydd,

Eisteddfod Pontypridd



Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant



Rygbi Ysgolion Cymru

Llongyfarchiadau enfawr i dîm rygbi 10 bob ochr yr ysgol am ddod yn ail drwy Gymru gyfan yng nghystadlaethau Rygbi Ysgolion Cymru fis Ebrill. Teithiodd y tîm ar ddiwrnod braf i Glwb Rygbi Llanymddyfri a chwarae'n bengiamp, gan ildio un cais yn unig drwy'r dydd i dîm Ysgol Pont y Brenin a enillodd y twrnamaint. Ardderchog blant!



Pêl-droed Ysgolion Rhondda Cynon Taf

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed 5 bob ochr yr ysgol am ennill ail rownd twrnamaint 5 bob ochr Ysgolion Rhondda Cynon Taf. Enillodd y tîm bob un o'r wyth gêm a bydd y tîm yn cynrychioli Rhondda Cynon Taf yn y rownd derfynol yn erbyn ysgolion ledled Cymru yn y Dre Newydd ar Fai 8fed. Pob lwc i bawb!



Eisteddfod yr Urdd

Diolch o galon i'r holl blant a gystadlodd yn frwd yn yr Eisteddfod Gylch a'r Eisteddfod Sir y tymor diwethaf. Gwnaeth pawb eu gorau glas gan berfformio i safon uchel. Pob lwc i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwedd mis Mai yn y cystadlaethau canlynol: Unawd Blwyddyn 5 a 6, Alaw Werin Unigol, Parti Unsain, Parti Deulais, Ensemble Lleisiol, Côr.



O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Jo Heyde, ddechreuodd ddysgu Cymraeg yn 2018, am ei chyfrol gynta, cyfrol o farddoniaeth, *Chwarter Eiliad*.



Beth yw eich gwaith?

Bues i'n gweithio am dros dri degawd fel athrawes biano (deithiol) mewn ysgolion merched yn Llundain, ond fe wnes i 'ymddeol'.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?

Yn ogystal â dysgu, fe fuodd 'na gyfnod o greu celfwaith a'i werthu, gweithiau inc ar bapur a hefyd 'goldwork' sydd yn fath o frodwaith.

O ble rydych chi'n dod? Ble rydych chi'n byw?

Wy'n dod o Ogledd Orllewin Llundain. Fe ges i fy ngeni a fy magu yn yr un ardal a fe fues i'n byw yno nes imi ddechrau barddoni yn y Gymraeg yn 2021. Ar sail yr ysfa i hala rhan helaeth o'n amser yng Nghymru, fe wnes i symud mas o Lundain ac, erbyn hyn, wy'n rhannu'r flwyddyn rhwng Swydd Hertford a Sir Benfro gan fod fy ngŵr yn parhau i weithio yn nghanol Llundain.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?

Naddo, mewn gwirionedd. Hynny yw, o'n i'n mwynhau dysgu ond dim yr ysgol ei hunan. Fe ges i fy hala i ysgol uwchradd eitha ofnadwy, a dweud y gwir. Wedi dweud hynny, roedd dwy athrawes anhygoel yno (Ffrangeg ac Almaeneg) ac felly, fe wnes i fwynhau'r gwersi hynny, a ches i sylfaen ieithyddol heb ei hail.

Ond roedd yr addysg yn gyffredinol yn wael ac agwedd sawl un o'r athrawon yn llym. Sa i'n cwyno amdani, a chyn imi gyrraedd Coleg y Brenin yn Llundain (a chael a chael oedd hynny oherwydd yr addysg), o'n i ddim wedi sylweddoli pa mor ddiffygiol oedd hi. Roedd fy ffrindiau yn y brifysgol i gyd wedi cael addysg lawer gwell ac yn gwybod sut oedd sgwennu traethawd.

Ond mae hyn oll wedi cyfrannu at yr holl hunan-ddysgu. Felly popeth yn iawn yn y diwedd.

Beth yw'r cysylltiad rhwng cerddoriaeth a barddoniaeth?

Mae'r ddwy'n ymwneud â gwrando, creu, mynegi dy hunan. Boed yn nodau neu'n

eiriau, iaith yw'r ddwy yn y bôn. Wy'n credu fy mod i'n gwneud popeth yn ôl y glust, a dyna beth sydd wrth wraidd cerddoriaeth a fy marddoniaeth.

Pam dechreuoch chi ddysgu Cymraeg?

Fel mater o barch, 'sen i wastad yn ymdrechu i siarad iaith y wlad wy'n ymweld â hi. Ond pan wnes i glywed yr iaith Gymraeg, roedd 'na rywbeth mor arbennig amdani, doedd dim opsiwn arall heblaw am fynd amdani.

Pam dechreuoch chi farddoni?

O'n i wedi dechrau gwrando ar y podlediad *Clera* tua diwedd 2020, ac o'n i'n mwynhau'r sgysiau sut gymaint. O'n i erioed wedi darllen cerddi o'r blaen, ac o'n i'n meddwl y byddai darllen cerddi yn helpu i arafu'n lleferydd.

A wnes i sylweddoli'n syth fy mod yn 'canfod' y byd (ar lefel greadigol) mewn cerddi, os yw hynny'n gwneud synnwyr!

Ac ar ôl iddyn nhw grybwyll y gynghanedd, wnes i gwlo i ffeindio mas beth oedd hi, a dyma brynu llyfr Alan Llwyd a dysgu'r anghenion. Felly fe fydda i'n fythol ddiolchgar i Nei (Aneirin Karadog), Eurig (Salisbury) a Gruff (Eifion Owen) am sbarduno popeth, ac i Alan am ei lyfr.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?

A bod yn onest, wy ffael ateb y cwestiwn hwn. Os wyt ti'n sôn am greu, sa i wir yn ymwybodol o unrhyw ddylanwadau penodol. Fe fydda i'n darllen lot, ac wy'n gwerthfawrogi gwaith pob bardd a phob awdur, ac mae bywyd a'r byd yn bwydo rhywun, yn gyffredinol. Ond wrth greu, fe fydda i'n mynd i fy mynd bach fy hun.

Y tu hwnt i greu, sa i'n credu bod 'na ddylanwadau, fel y cyfryw. Ond mae barn fy ngŵr yn bwysig, wrth reswm!

Pa waith arall ydych chi wedi cyhoeddi?

Pamffled *Cân y Croesi* gyda Chyhoeddiadau'r Stamp.

O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r gyfrol? Faint o her oedd ei sgrifennu hi?

O'n i'n gwybod fy mod i moyn llunio cyfrol gyda thri math o gerddi, sef cipluniau o'r gorffennol, cerddi am y ddwy ardal ble wy'n byw, a cherddi sy'n gysylltiedig â cherdoriaeth. Wy wedi curadu'r gyfrol yn fwriadol o'r dechrau'n deg. Doedd hi ddim yn teimlo fel her, o'n i jest yn ddiolchgar am yr amser a'r cyfle.

Beth yw arwyddocâd y teitl?

Mae *Chwarter Eiliad* yn crynhoi y modd y bydda i'n canfod y byd a derbyn syniadau o 'rywle'. Wy'n berson greddfoll iawn, ac mae'r ymateb greddfoll yn digwydd yn go glou.

Beth sy'n gwneud cerdd dda?

Rhythm i mi a sgwennu didwyll.

Sut mae cerdd yn dechrau? Sut mae cerdd yn datblygu?

I mi, mae rhywbeth yn fy nharo, a bydda i'n sgwennu cerdd neu esgryn cerdd yn eitha clou. Ond wedyn mae 'na gyfnod o ddweud y gerdd, a myfyrio a chwynnu, nes i 'nghlustiau i ddweud bod rhaid stopio ymyrryd. Wy'n ymddiried yn fy nghlustiau yn hytrach na gorffeddl. Ond efallai bydd y darllenwyr yn anghytuno gyda 'nghlustiau, wrth gwrs.

Beth sy'n well 'da chi, y wers rydd neu'r gynghanedd? Ydyn nhw'n gweddu i gerddi arbennig?

Wy ffaelau cymharu'r ddwy. 'Sdim rheolau pendant. Fe fydda i'n mynd yn reddfoll gyda beth sy'n dod, ac mae hynny'n amrywio o dro i dro.

Beth oedd proses cynllunio'r casgliad? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwy?

Wel, unwaith imi benderfynu ar y tri math o gerddi, doedd 'na ddim rhagor o gynllunio nes imi gael sgwrs gyda'r golygydd, ac wedyn es i drwy'r broses o naddu 'nghasgliad, Go iawn, mwynheais i gydol y broses - mae cwpla pob cerdd yn deimlad da. Sa i'n siŵr am yr her fwy - efallai gobeithio bod y gyfrol yn plesio.

Oes gennych chi rwtin sgrifennu?

Wy'n berson hunan-ddisgrybedig iawn ac wy'n dwlu ar rwtins, felly oes. Fydda i'n neilltuo cwpl o oriau bob bore i sgwennu ac wedyn fe fydd cyfnodau o ail-ymweld â'r gwaith drwy'r dydd.

Beth yw eich barn am stad barddoniaeth Gymraeg?


Wy'n meddwl bod 'na gyfoeth o farddoniaeth Gymraeg, boed yn draddodiadol neu'n gyfoes, gyda chymaint o feirdd newydd yn dod i'r sin drwy'r amser.

Pwy yw eich hoff fardd? Pam?

Sori am beidio â gallu ateb ond go iawn, 'sda fi ddim hoff fardd. Mae 'na bethau anhygoel mewn cymaint o gyfrolau ac mae pob darlenniad o un gerdd yn wahanol.

Pa gyngor fydddech chi'n rhoi i fardd ifanc?

Sgwennwch lot o gerddi - mae'n bwysig ymarfer y broses o droi syniadau a gweledigaeth yn eiriau. Darllenwch lot ac aros yn driw i bwy ydych chi.



CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Prif Ffisiotherapydd Academi Wrecsam



Am newyddion da! Ai Daniel Calan oedd tu ôl i lwyddiant anhygoel Clwb Wrecsam? Llongyfarchiadau mawr i Daniel Calan Jones ar ei ddyrchafiad i Brif ffisiotherapydd Academi Clwb Pêl-droed Wrecsam. Mae wedi bod yn gweithio yno ers mis Medi 2024 ac wedi cwrdd a sgwrsio gyda Rob McElhenney.

Wedi dyrchafiad Wrecsam i'r Uwch-gynghairr mae nawr yn edrych ymlaen i barhau i gynorthwyo datblygiad y clwb. (ac yn edrych ymlaen i'r Eisteddfod!)

Gwellhad llwyr a buan . . .

. . . i **Gwenfil Thomas**.

Mae Gwen wedi bod drwy'r drin yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion gorau ati - gan obeithio y bydd hi'n teimlo llawer yn well yn fuan.

O DAN YR WYNEB

(Parhad)

Beth sy ar y gweill?

Wy'n parhau i sgwennu. Fe gawn ni weld beth ddaw.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd
Pitsa cartre.



Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?

Mynd am dro gyda fy ngŵr a'r ci. Pethau syml sy'n mynd â 'mryd i.

Dolen Gwales: [https://www.gwales.com/bibliographic/?](https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781911584933&tsid=3)

[isbn=9781911584933&tsid=3](https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781911584933&tsid=3)

Chwarter Eiliad, Jo Cyhoeddiadau Barddas, £9.95

Heyde,

Lwc dda . . .

. . . i **bawb** o blant a phobol ifanc yr ardal fydd yn cystadlu yn Eisteddfod **Dur a Môr, Parc Margam** ym mis Mai! Byddwn yn dilyn eich taith!

Gair bach o Gosta Rica gan Elina Thomas-Jones

Symudais i Costa Rica ym mis Tachwedd 2024 i gychwyn ar fy ngwaith ymchwil ym maes cadwraeth bywyd gwyllt yng nghanolfan Achub Wild Sun - a 'dw i bellach wedi fy mhenodi'n Is-Reolwr ar y Ganolfan! Swydd sy'n golygu cynnig gofal dwys i'n 'ceifion' mwya newydd a bregus - anifeiliaid amddifad, neu rai sy wedi eu clwyfo'n arw. Byddaf yn eu bwydo â llaw lle bo rhaid, yn darparu meddyginiaeth lle bo'r galw, yn ymateb i argyfyngau, gofalu am ddiogelwch gyda'r bwriad yn y pen draw i'w rhyddhau nôl i'r gwyllt. Canolfan achub yw Wild Sun - nid lloches - hynny yw ein nôd ni yma yw gweld yr anifeiliaid yn dychwelyd i'w cynefin yn iach a diogel. Bûm yn ffodus i gynorthwyo mwnciod 'howler', dregwn brith, bwytywyr morgug a gwiwerod prin i ddod o hyd i'w cynefin naturiol. 'Dw i hefyd yn hyfforddi gwirfoddolwyr ac *interns* eraill yma'n y Ganolfan. Mae ymroddiad y gwirfoddolwyr yn hollbwysig i Wild Sun - elusen ddim-am-elw sy'n hollol ddibynnol ar gyfraniadau gan garedigion.

Roedd symud i Gosta Rica yn un o brofiadau mwya mywyd! 'Dw i mor ddiolchgar o gael bod yn rhan o sefydliad mor ofalgar a grymus sy'n gwneud gwahaniaeth! Gellwch fy nilyn ar Instagram - [wildlifewithelle ET-J](#)

(Diolch Elina! Cadw mewn cysylltiad â ni! Mae Elina yn gyn-ddisgybl Ysgol Plasmawr - llynedd graddiodd mewn Anthropoleg o Brifysgol Plymouth ac mae bellach ar '*internship*' yn astudio am radd Meistr mewn AnthroZoology dan arweiniad Prifysgol Caerwysg allan yn Wild Sun Rescue Centre, Costa Rica - cadw'n saff - a dal ati i fwynhau dy waith cyffrous!)



Cynorthwyo'r Mil-feddyg ar 'tamandua' / bwytywyr

Clwb Gwawr Crotesi Creigiau a'r cylch

Dewch i ymuno gyda ni. Byddwn yn ymweld â Phontypridd a Crochendy Nantgarw cyn diwedd y tymor. Cysylltwch â telerij@yahoo.com. Croeso i ddsygrwr neu siaradwr newydd.

Yn ddiweddar cawsom sgwrs ddi-ddorol dros ben gan Colin Williams am ei drip i Batagonia- a cymaint ohonom eisiau ymweld a'r wlad o ganlyniad.

Ein trip diwethaf oedd i weld y Biliwynt yn Llantrisant a te hyffryd yn y Guildhall



Noson Mei Gwynedd

Cafwyd noson wych o gyd-ganu caneuon poblogaidd gyda Mei Gwynedd yn Acapela ym mis Mawrth. Roedd y pitsa yn dda hefyd!

Amanda Powell oedd yn ein diddanu ym mis Ebrill yn y Clwb golff gyda'i hanesion a'i phrofiadau.

Os hoffech ymuno gyda ni eboostiwch telerij@yahoo.com



Bwydo mwnci 'howler' ifanc

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

Ai blas yw'r cyfan?

Mae sawl erthygl yn ymwneud â bwyd wedi tynnu fy sylw yn ddiweddar, i gyd yn ymwneud â synhwyrau blas bwyd.

Mae'n ymddangos y byddwn, yn y dyfodol agos, yn gallu defnyddio ein ffonau ac i-pads i brofi 'antur bwyd' ar-lein. Ni fydd angen samplau am ddim yn eich siopau lleol mwyach gan y byddwch yn gallu profi blasau ac arogleuon bwyd yn electronig; ond nid yw hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi lyfu neu aroglu eich ffôn! Mae gwyddonwyr yn gweithio ar ddatblygu 'tafod electronig' a fydd yn ein galluogi nid yn unig i weld bwydydd ond hefyd i brofi blasau ac arogleuon. Bydd y teclyn, y maen nhw wedi'i alw'n "e-Taste" yn dal data am gemegau mewn samplau hylifedig o fwydydd a diodydd ac yn anfon gwybodaeth yn ddiwifr i ddyfais sy'n pwmpio hylifau trwy haen o gel sy'n cynnwys y cemegau blas. Bydd gan bobl rywbeth fel gweltyl yn eu cegau i brofi'r blasau. Mae llawer o heriau i'w goresgyn hyd yma a tybed sut y bydd hyn yn ymateb i'r broblem y mae gwyddonwyr ymddygiadol wedi'i chael gyda lemonau a siocled? Sut tybed ydych chi'n ymateb i'r ddau?



Efallai eich bod chi'n profi'r un effaith â'r awdur coginio Rachel Roddy sydd, wrth weld lemwn, yn profi cynnydd mewn poer yn ei cheg. Yn ôl pob tebyg, os yw pobl yn gweld lemwn yn ogystal â'i flasau mae eu hymatebion i fesuriadau poer gwyddonol yn cael eu difetha. Yna mae'r effaith 'yummy' rydym yn ei brofi wrth fwyta bwydydd fel siocled. Mewn bwydydd sawrus mae hyn wedi'i ddisgrifio fel y 5ed blas.

Rydym wedi bod yn gyfarwydd iawn â gallu'r tafod i adnabod blasau sur, chwerw, melys a hallt, ond yn y 1990au ychwanegwyd proffil blas arall o'r enw Umami. Daw'r enw o 'umai' sy'n golygu 'blasus' yn Japaneaidd. Disgrifir y blas fel un sy'n rhoi ansawdd sawrus cyfoethog, dyfnach a chymhleth i fwydydd.

Mae bron ganrif ers i wyddonydd o Japan, yr Athro Kikunae Ikeda, gael ei ysbrydoli gan gawl blas cyfoethog o wymon wedi ei wneud gan ei wraig. Aeth ati i ynysu'r cyfansoddyn cemegol 'glwtamad' o'r gwymon a hwn sy'n



gyfrifol am y blas sydd nawr yn cael ei ystyried fel y 5ed blas. Creodd yr Athro Ikeda sennin o'r enw *monosodium glutamate* (MSG) trwy echdynnu glwtamad o dashi, cawl wedi'i wneud o wymon. Daeth MSG yn gynwysyn poblogaidd ym mwyd Japan ac fe ymledodd ei boblogrwydd ar draws Asia,

gan gyrraedd y byd Gorllewinol erbyn canol yr 20fed ganrif. Fe'i cynhyrchir yn awr trwy eplesu startsh, betys siwgr, cansen siwgr neu driagl; proses debyg i'r un a ddefnyddir i wneud iogwrt, finegr a gwin. Fe'i defnyddir mewn rhai bwydydd parod gan gynnwys: cig wedi'i brosesu, cawliau tun, ciwbiau stoc, prydau parod, nwdls gwib a byrbrydau sawrus.

Efallai eich bod wedi darllen bod MSG wedi'i gysylltu â'r hyn a elwid yn "Syndrom Bwyty Tsieineaidd". Term a ddefnyddir ar gyfer symptomau gan gynnwys cur pen, chwysu, a fflisio a brofodd rhai pobl ar ôl bwyta bwyd Tsieineaidd, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys monosodiwm glwtamad. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiad rhwng MSG a'r symptomau hyn wedi'i sefydlu ac er y gallai fod gan rai pobl sensitifrwydd neu anoddefiad iddo, mae'r term bellach yn cael ei ystyried yn hen ffasiwn ac o bosibl yn dramgwyddus.

Mae hyn yn arwain at stori newyddion bwyd tymhorol arall gyda'r Pasg a'r Nadolig yn gyfnodau

gwerthu siocled mwyaf y flwyddyn. Dim llawer o syndod, ynte? Ond beth sy'n gwneud siocled mor anorchfygol? Mae siocled yn fwyd cymhleth iawn ac nid dim ond ei flas a'i deimlad yn ein ceg sy'n ei wneud mor anadferadwy. Mae siocled yn cynnwys nifer o gyfansoddion cemegol sy'n cyfrannu at ei arogl a hefyd rhai a elwir yn 'cemegau seicoweithredol' sydd, ynghyd â'i 'gludedd



hufennog' (gwneud iddo doddi ar y tafod gan adael teimlad o esmwythder), oll yn cyfrannu at y teimlad o hapusrwydd a phleser. Tybed sut bydd 'e-Taste' yn ymdopi ag ailadrodd hyn? Fodd bynnag, mae mater mwy difrifol na hyn fel yr amlygwyd mewn erthygl newyddion diweddar "*Climate crisis contributing to chocolate market meltdown*". (Guardian, Chwefror 2025)

Gyda thymheredd poethach yn dod yn amlach mae pryder arbennig am yr effaith ar ddau o'r cynhyrchwyr coco mwyaf - yr Arfordir Ifori a Ghana. Er y gall cwmnïau mawr ymateb i brinder coco trwy greu ryseitiau sy'n lleihau faint o goco sydd yn eu cynhyrchion neu newid y meintiau a/neu brisiau, mae'r effaith ar ffermwyr yn llawer mwy. Mae'r rhai sy'n cynhyrchu'r mwyafrif o'r ffa yn ffermwyr tlawd, gyda llawer ohonynt eisoes yn gweld dim ond cyfran fach o'r elw a gynhyrchir gan y diwydiant siocled. Tra bod rhai cwmnïau yn ceisio diogelu dyfodol ffermio ffa coco trwy gefnogi dulliau ffermio cynaliadwy a Masnach Deg a hefyd yn lleihau eu hól troed carbon eu hunain, mae eraill yn dechrau chwilio am ddewisiadau eraill.

Ar hyn o bryd mae gwyddonwyr yn arbrofi gydag ystod o ddewisiadau



eraill. Mae ymchwil labordy wedi datblygu rysait sy'n defnyddio deunydd planhigion gwastraff o blisgyn y planhigyn coco. Mae'r defnydd o ffa faba, haidd, carob, ceirch a hadau blodyn yr haul yn ogystal â chelloedd choco sydd wedi eu 'tyfu' mewn labordy yn cael ei ymchwilio. Does dim un ohonynt wedi llwyddo hyd yn hyn i wir wedi efelychu rhinweddau siocled go iawn.

Mae atgynhyrchu bwyd mor gymhleth â siocled yn sicr yn her ond yn werth y buddsoddiad ar gyfer diwydiant mor broffidiol gwerth tua 133.6 biliwn o ddoleri'r UDA. Heblaw am felysion siocled mae 43% o bwddinau a hufen iâ, 32% o gynnyrch wedi'u pobi, a 25% o rawnfwyd brecwast hefyd yn cynnwys coco. Ym Mhrydain yn unig mae'r farchnad melynion siocled yn cynhyrchu refeniw o tua £5.47 biliwn y flwyddyn.



Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS]
(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Mai 2025:

4 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
11 – Oedfa dan ofal y Parchedig Jeff Williams
18 – Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts
25 – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards

Mis Mehefin:

1 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
8 – Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil John
15 – Oedfa dan ofal Huw Lloyd
22 – Oedfa dan ofal Sian Meinir
29 – Oedfa dan ofal Allan Cook
---oooOOOooo---

Mae'r pwt yma o lith yn cael ei ysgrifennu ar ddydd Mawrth yr 22ain o Ebrill 2025:-

“**Ddoe**, roedd hi'n ddydd Llun y Pasg – ddoe bu farw'r Pab Francis – a hynny rhyddig oriau yn unig wedi iddo wneud ymddangosiad yn Sgwâr San Pedr ddydd Sul i ddymuno "Pasg hapus" i filoedd o bobl.

Mae'r teyrngedau lu sy'n llenwi'r bwletin newyddion a'r wasg wedi bod yn haeddiannol hael iddo, yn eu mysg un gan Brif Weinidog Cymru, Eluned Morgan:-

"Drwy gydol ei gyfnod fel Pab bu'n eiriolwr diflino dros y tlawd, pobl ar y

Colofn Blasus a lachus

(Parhad)

Efallai na fydd yn hir cyn i ni allu prynu cynnyrch sy'n efelychu siocled na'u blasu yn rhithiol; ond ni ddylai hyn fod yn bryder i ni. Mae'n rhaid i ni ddod i'r afael â mater llawer mwy difrifol - newid hinsawdd a thlodi cynyddol. Yn ôl adroddiad Cymorth Cristnogol 2025 '**Cocoa crisis: How chocolate is feeling the bite of climate change**' (ar gael ar wefan Cymorth Cristnogol ac yn werth ei ddarllen) 'Mae siocled a'r bywoliaethau sy'n dibynnu arno mewn perygl oherwydd y tywydd cyfnewidiol, eithafol hwn a achosir gan gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn y pen draw, mae angen inni weld allyriadau'n cael eu lleihau er mwyn atal effaith newid hinsawdd ac yn y cyfamser dylid darparu cymorth ariannol i ffermwyr coco i'w helpu i addasu ac amrywio eu hincwm.' Rhywbeth i gnoi drostro wrth fwyta eich darn nesaf o siocled!

cyrion a'r rhai sydd wedi eu dadleoli.

Atgoffodd bob un ohonom nad tasg wleidyddol neu gymdeithasol yn unig yw'r frwydr yn erbyn tlodi, newid hinsawdd ac anghyfiawnder, ond galwad foesol."

Heddiw, ar yr 22ain o Ebrill, bydd miliynau o bobl ar draws y byd yn dathlu 'Dydd y Byd' [Earth Day] – a hynny am y 55ed tro.

Dathliad gan fudiadau amgylcheddol, a gychwynnodd yn yr Unol Daleithiau yn 1970, yw sail Dydd y Byd.

Bryd hynny, bu i'r Seneddwr Gaylord Nelson, a'r myfyriwr o Brifysgol Havard, Denis Hayes, godi ymwybyddiaeth a phryderon am y difrod amgylcheddol a ddeilliai o drychinebau (megis olew yn gollwng) yn y wlad. [Lladdwyd dros 10 000 o adar a mamaliaid yn y môr ger Santa Barbara, California, yn 1969 gan drychineb o'r fath.]

Bellach, ers 1990, mae'r digwyddiad wedi tyfu'n un rhyngwladol, gyda'r neges yn glir – y pwysigrwydd o warchod ein hamgylchedd.

Ac yn ol geiriau'r Pab Francis ei hun, "Mae'r greadigaeth er budd pobun, yn etifeddiath dynolryw, ac yn gyfrifoldeb i bawb."

Thema Dydd y Byd yn 2025 yw "**Ein ynni, ein planed**", gan ganolbwyntio ar ynni adnewyddadwy (yr her a osodir yw i gynyddu'r ynni yma [gwynt a solar] deirgwaith yr hyn ydyw ar hyn o bryd erbyn y flwyddyn 2030.)

(Dyma, gyda llaw, yr union beth a gytnwyd yn COP28 yn Dubai yn 2023!)

Mae themâu'r blynyddoedd blaenorol wedi canolbwyntio ar newid hinsawdd, gwastraff plastig, a gwarchod rhywogaethau.

Credir bod dynodi Dydd y Byd wedi bod yn fendithiol mewn sawl ffordd, ac wedi dylanwadu ar wladwriaethau i wella eu stad - e.e. drwy fabwysiadu neu gryfhau deddfwriaeth amgylcheddol; drwy gynllun plannu coed; dewis ffyrdd amgen a chynaliadwy o amaethu; meithrin cynlluniau addysgu priodol; ac yn fwy na dim trwy sicrhau bod y materion amgylcheddol ar frig y trafodaethau lleol a rhyngwladol.

"Mae Dydd y Byd wedi ein hatgoffa o "gost tymor hir peidio ymateb i faterion amgylcheddol" yn ol un o gyn-benaethiaid hinsawdd y Cenhedloedd Unedig.

A dyna pam y dewiswyd y dyddiad yma (yn symbolaidd felly) yn 2016, i gael yn agos at 200 o wledydd i lofnodi Cytundeb Hinsawdd Paris (er i'r Arlywydd Trump ddatgan yn ystod ei ddiwrnod cyntaf yn y swydd yn 2025, fod yr Unol Daleithiau mwyach am dynnu nôl o'r cytundeb hwnnw!)

[Dyma'r Cytundeb lle y plediodd arweinwyr gwledydd y byd cyfan bron, am y tro cyntaf erioed, i wneud yr hyn y

gallent i sicrhau na fyddai tymheredd y byd yn codi mwy na 1.5C uwchben y tymheredd tybiedig ar ddiwedd y 19 ganrif.]

Mae'n wir i gydnabod bod 'na beth beirniadaeth ar Ddydd y Byd o ambell gyfeiriad, gyda Greta Thunberg yn honni ei fod "wedi ei droi yn gyfle i rai mewn awdurdod hyrwyddo eu cymwysterau amgylcheddol, a'u cariad at y blaned, tra ar yr un pryd yn ei dinistrio ar gyflymdra mawr". ["Greenwashing" yw'r term a ddefnyddir ganddi.]

Ond, serch y feirniadaeth, mae'r mudiad yn mynnu y gellir creu "*chwyldro dyngarol*" a all wella ansawdd bywyd ac iechyd biliynau o bobl o gwmpas y byd, trwy sicrhau bod ynni adnewyddadwy, dibynadwy, ar gost isel, ar gael iddynt. [Amcangyfrifir bod 3.8 biliwn o boblogaeth y byd yn syrthio'n brin o gyrraedd 1000 kWh o ynni y pen – yr Isafswm Ynni Modern (Modern Energy Minimum) – sef trothwy lliniaru tlodi.]

Nid oedd y Pab Francis yn brin o gyfrannu at y drafodaeth yma, ac mae sawl enghraifft o'i sylwadau ar gael, un ohonynt yn benodol wedi ei wneud ar Ddydd y Byd:-

"**Heddiw fe ddatlwn Dydd y Byd. Fe anogaf pawb i weld y byd trwy lygaid Duw y Creawdwr: mae'r byd yn amgylchfyd i'w warchod, ac yn ardd i'w meithrin. Ni ddylai'r berthynas rhwng dynoliaeth a natur gael ei chamddefnyddio er budd trachwant ac elw, ond dylid yn hytrach gadw'r cytgordd dwyfol sy'n bodoli rhwng creaduriaid a'r Creawdwr o fewn rhesymeg parch a gofal, fel y gall fod o wasanaeth i'n cyd-ddyn, a chenedlaethau'r dyfodol.**"

Ac yna, yn gyson a'i ddewis enw fel Pab:-

"**Cymerwch ofal da o'r greadigaeth. Dyna oedd cri Sant Francis. Mae pobl weithiau'n anghofio, ond nid yw natur byth yn gwneud hynny. Os na wnawn ni warchod ein hamgylchfyd, nid oes unrhyw ffordd amgen yn ol i ni.**"

Ac eto, dwy engraifft o blith nifer y gallwn fod wedi eu dewis:-

"**Nid dyngarwch yw gweithio i sicrhau tegwch wrth rannu ffrwythau'r ddaear a llafur cyd-ddyn. Mae'n angenrhaidd moesol.**"

"**Dywed Llyfr Genesis bod Duw wedi creu gwryw a menyw ac wedi ymddiried ynddynt y dasg o lenwi'r byd a'i ddofti, ond nid yw hynny'n golygu ei reibio, ond yn hytrach ei feithrin a'i warchod yn ofalus.**"

Ac yn olaf, neges gyffredinol a diffuant i bob un ohonom ni i fyfyrto arni:-

"**Mae bywyd yn dda pan fyddwch yn hapus; ond yn llawer gwell pan mae eraill yn hapus o'ch herwydd.**"

Jorge Mario Bergoglio, fe geisiwn ein gorau i dy efelychu!

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Sioe Hetiau Meithrin a Derbyn

Da iawn i ddsbarthiadau Meithrin a Derbyn am ei Sioe Hetiau Pasg arbennig.



Disgo CRha

Diolch yn fawr i'r CRha am drefnu disgo Gwanwyn hyfryd yn yr haul.



Gwobrwyo

Llongyfarchiadau i'r disgyblion sydd wedi ennill bathodyn aur am gasglu tystysgrif am arddangos bob un o werthoedd yr ysgol yn gyson.



Cewri Castellau

Aeth y Cewri Castellau draw i Ysgol Penygawsi i ddysgu gemau iard i Griw Cymraeg Penygawsi.



Clwb Celf

Mae'r disgyblion yn mwynhau Clwb Celf gyda Miss Hudson ar nos Iau.



Technocamps

Diolch yn fawr i Technocamps am ddot i gynnal gweithdy codio BBC micro:bit Music. Roedd y disgyblion wedi mwynhau mas draw.



Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Eisteddfod Sir yr Urdd Morgannwg Ganol



Llongyfarchiadau mawr i Lloyd Phillips a ddaeth yn gyntaf ar y gystadleuaeth llefaru i Fl 5 a 6 ac i Isaac Martin-Williams a ddaeth yn drydydd ar yr Unawd Bl3 a 4 yn Eisteddfod sir yr Urdd â gynhaliwyd yn Neuadd y Dref Maesteg. Rydym yn hynod o falch o'r ddau am eu llwyddiant ac yn dymuno'r gorau i Lloyd yn Eisteddfod Dur a Môr ym Mharc Margam.

Llwyddiant Ail-Gylchu

Fe wnaeth aelodau'r Cyngor Ysgol a'r plant ymdrech wych i gasglu ac ail-gylchu cardiau Nadolig eleni. Casglwyd 83,070g o gardiau ac o ganlyniad daeth yr ysgol yn ail yng nghystadleuaeth ail-gylchu ysgolion Rhondda Cynon Taf gan ennill gwobr o £100. Bydd yr arian yn cael ei wario ar hyrwyddo cynladwyedd yn yr ysgol.

Ymweld â Chastell Caerdydd

Fel rhan o'u gwaith ar effaith yr Ail Ryfel Byd ar fywyd pobl gyffredin, fe aeth disgyblion o Flynnydoedd 3 i 6 ar



Profiad o fod yn y llochesi cyrchoedd awyr

ymweliad â Chastell Caerdydd. Tra yno fe gawsant glywed am fywyd Warden Cyrch Awyr a chael profiad o gysgodi yn llochesi'r castell.

Casglu Sbwriel yn Nhonyrefail

Bu aelodau'r Cyngor Eco yn casglu sbwriel o amgylch y pentref yn ddiweddar gyda'r Cynghorydd Danny Grehan fel rhan o weithgareddau Asiantaeth Amgylcheddol Tonyrefail. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled.



Derbyn gwobr ail-gylchu cardiau Nadolig



Casglu sbwriel o amgylch Tonyrefail



Bl 3 yng Nghastell Caerdydd

Gorymdaith Hetiau Pasg

Gwahoddwyd rhieni y Dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i wyllo gorymdaith hetiau Pasg y plant. Roedd pawb wedi bod yn hynod brysur yn creu hetiau lliwgar bendigedig.



Hetiau Pasg y Dosbarth Meithrin



Dosbarth Derbyn yn arddangos eu hetiau Pasg

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (Parhad)

Pob Lwc i'n timau Pêl-droed a Rygbi!

Pob lwc i dîmau pêl droed a rygbi Bl.3 a 4 yr ysgol wrth iddynt gynrychioli'r rhanbarth a chystadlu yn y twrnament genedlaethol yn Aberystwyth.



Ysgol Creigiau

Gweithdy Ailgylchu

Mwynheuodd disgyblion Dosbarth 1 a Class 1 weithdy Tipyn o Gês gyda Llinos Mair. Dysgon nhw am y byd gwyrdd ac ailgylchu trwy amrywiaeth o weithgareddau creadigol. Cawsant hwyl a sbri yn chwilio am nifer o bypedau lliwgar a oedd yn cuddio yng nghrombil y cês.

Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston

Bu disgyblion Blwyddyn 3 yn ymweld â Pharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston. Fe gymeron nhw ran mewn gweithdai Archwilio Pyllau Dŵr a Chyfeiriannu.



Dosbarth 3 ym Mharc Gwledig Cosmeston

Diwrnod Syndrom Down y Byd

Dathlon ni Ddiwrnod Syndrom Down y Byd 2025 trwy wisgo sanau od/lliwgar i'r ysgol. Codon ni ymwybyddiaeth a dathlon ni fywydau a chyflawniadau pobl â Syndrom Down ac anableddau dysgu eraill.



Gwisgo sanau od i ddathlu Diwrnod Syndrom Down y Byd

Noson Ffilm

Trefnodd Cyfeillion yr Ysgol noson ffilm llwyddiannus cyn diwedd tymor y Gwanwyn. Mwynheuodd y disgyblion wyluo'r ffilm 'Moana 2' yn neuadd yr ysgol. Roedd ymddygiad pawb yn wych trwy gydol y ffilm a llwyddwyd i godi £280!

Arwerthiant Cist Car

Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu Arwerthiant Cist Car llwyddiannus iawn yn yr ysgol! Roedd y tywydd yn berffaith ac rydym yn ddiolchgar i'r nifer fawr o bobl a gefnogodd y digwyddiad cymunedol hwn. Codwyd £817.75 - am swm anhygoel!

Cynghrair Lego

Bu saith o ddisgyblion Blwyddyn 5 yn cystadlu yng nghystadlaethau Cynghrair Lego. Mwynheuon nhw ddefnyddio



Mwynhau'r Gynghrair Lego

amrywiaeth o sgiliau - adeiladu, codio, cyflwyno a chydweithio. Dangoson nhw ymroddiad a brwdfrydedd trwy gydol y dydd. Da iawn Iolo, Steffan, Eleri, Nia, Tomos, Bode a Finn - arweinwyr STEM y dyfodol!

Dathlu Doniau Cerddorol

Aeth disgyblion Dosbarth 3 a Class 3 i Ganolfan yr Holl Genhedloedd er mwyn cymryd rhan mewn cyngerdd i ddathlu eu sgiliau cerddorol. Mae'r ddau ddsbarth wedi bod yn mwynhau dysgu chwarae'r PBuzz. Cynhaliwyd cyngerdd fawreddog er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ddathlu eu doniau a chael clywed perfformwyr ifanc eraill. Da iawn i bob un ohonynt am berfformio mor wych.

Twrnaint Pêl-droed Radur

Brynhawn Iau chwaraeodd un ar ddeg o ddisgyblion Class 6 mewn twrnaint pêl-droed 7-bob-ochr yn Ysgol Gyfun Radur. Roedd adran Addysg Gorfforol Radur wedi trefnu'r twrnaint ar gyfer holl ysgolion clwstwr Radur. Chwaraeodd tîm Blwyddyn 6 Creigiau yn eithriadol o dda ac fe fwynheuon nhw'r profiad yn fawr.



Pel-droedwyr Class 6 yn mwynhau yn Nhwrnaint Radur

Sgiliau Achub Bywyd ac Iaith Arwyddo

Cyflwynodd dau hyfforddwr o New Directions sgiliau achub bywyd i ddisgyblion Blwyddyn 6. Fe ddysgon nhw sut i roi rhwymyn, stopio gwaedlif o'r trwyn a sut i wneud CPR. Fe wnaethon nhw i gyd fwynhau'r sesiwn addysgiadol. Cyflwynodd yr hyfforddwr hefyd sesiwn o iaith arwyddo i ddisgyblion Blwyddyn 5. Roedden nhw i gyd wedi mwynhau dysgu sgil newydd hefyd.

Eisteddfod Noson Theatr Caerdydd a'r Fro

Cystadlodd Nel, Menna, Erin, Monika, Sophie a Sophie yn Eisteddfod Theatr Caerdydd a'r Fro a gynhaliwyd yn Undeb Myfyrywyr Prifysgol Caerdydd. Cystadlon nhw yn y cystadlaethau Perfformio Golygfa o sgript ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ac iau, iaith gyntaf a dysgwyr. Perfformiodd y ddau grŵp yn wych. Arbennig ferched - rydym ni mor falch ohonoch.



Ymgomwyr gwych Dosbarth 6



Ymgomwyr gwych Class 6

Twrnaint Rygbi'r Urdd

Llongyfarchiadau i'r dauddeg dau disgybl a gystadlodd yn Nhwrnaint Rygbi'r Urdd ar Gaeau Pontcanna. Enillodd Tîm B eu gêm gyntaf a sgorion nhw nifer o geisiau. Enillodd Tîm A 3 allan o 4 gêm ond methu'r chwarteri o drwch blewyn. Roedd Mr Williams a Mrs Hussey yn falch iawn o'r ddau dîm. Diolch i'n teuluoedd am gefnogi.



Mwynhau yn Nhwrnaint yr Urdd

Ysgol Creigiau (Parhad)

Eisteddfod Sir yr Urdd

Ddydd Sadwrn, 5ed o Ebrill, bu 28 disgybl yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir a gynhaliwyd yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Roedd pob un o'n disgyblion wedi perfformio'n wych - roedden ni'n falch iawn o bob un ohonynt.

- 1af i Gracie, Class 6, Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr
- 2il i Monika, Class 6, Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr
- 2il i Alys, Class 2, Llefaru Bl 2 ac iau i ddysgwyr
- 2il i'r Parti Unsain
- 2il i'r Parti Llefaru i ddysgwyr
- 3ydd i Megan, Class 3, Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu. Bydd Gracie yn cynrychioli'r ysgol a Chaerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir ym Mharc Margam yn ystod hanner tymor y Sulgwyn.

Cymraeg yn y Gymuned

Mae'n disgyblion wedi cael cyfle i ddylunio poster i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned fel rhan o'u gwaith tuag at ennill statws Aur Siarter Iaith.

Fe gysyllton nhw â Tesco yn y pentref a gytunodd i arddangos y posteri yn y siop. Yn garedig iawn, fe roddon nhw Wyau Pasg i ddylunwyr y posteri buddugol o bob dosbarth. Diolch iddynt am eu haelioni.



Enillwyr Posteri Siarter Iaith

Ffau'r Dreigiau Creigiau

Mae Dosbarth 6 a Class 6 wedi bod yn defnyddio ystod o sgiliau i ymchwilio, dylunio a chreu eu tyrbinau gwynt eu hunain. Cyn gwyliau'r Pasg, bu disgyblion Class 6 a Dosbarth 6 yn arddangos eu dyluniadau ac yn rhannu eu cyflwyniad i gynulleidfa o ddisgyblion a theuluoedd a



Enillwyr Ffau'r Dreigiau Class 6



Cystadleuwyr Eisteddfod y Sir

bleidleisiodd dros eu hoff ddyluniad a chyflwyniad. Dyluniad buddugol Dosbarth 6 oedd 'Egni Eco' a gynlluniwyd gan Alys, Lilwen, Layla, Math a James. Dyluniad buddugol Class 6 oedd 'Aerocon' a

ddyluniwyd gan Tomas, Gracie, Wil, Sophie a Katya. Am waith anhygoel! Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 am baratoi cyflwyniadau gwyh.



Enillwyr Ffau'r Dreigiau Dosbarth 6

Twrnaint Rygbi Tag yr Urdd

Aeth dau dîm tag rygbi merched i gystadlu yn Nhwrnamaint yr Urdd a gynhaliwyd ar Gaeau Pontcanna. Chwaraeon nhw i gyd yn wych gydag Tîm B yn sgorio 13 cais a Tîm A yn cyrraedd y rownd derfynol. Dangoson nhw frwdfrydedd, awch a sgiliau slic trwy gydol y dydd.



Mwynhau yn Nhwrnamaint Rygbi Tag yr Urdd

HELEDD FYCHAN

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

- 01443 853214
- Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
- 2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ
- Heledd Fychan AS / MS
- @Heledd_Plaid
- @Heledd_Plaid



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus



Gornest Lyfrau

Llongyfarchiadau i griw o flwyddyn 3 a 4 am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Gornest Lyfrau y Sir. Fe wnaethon nhw drafod llyfr 'Sw Sara Mai ac antur y fferm' a chreu hysbyseb ar gyfer y llyfr 'Enwogion o Fri: Betty'. Diolch i Miss Williams am weithio gyda'r criw brwdfrydig yma.



Heddlu

Cafodd dosbarth Ffynnon Ddu bore diddorol yn dysgu am gadw'n ddiogel. Diolch i'r heddlu am y sgwrs.



Dathlu y Pasg

Diolch i Ffrindiau Awel Taf am drefnu gorymdaith cystadleuaeth creu het Basg ar gyfer CC1 a 2 a disgo Pasg ar gyfer CC3. Diolch hefyd am roi wy Pasg i bob disgybl yn yr ysgol. Roedd y plant wrth eu boddau!

Sbectrwm

Daeth cwmni Sbectrwm i gynnal gweithdai gyda blwyddyn 2 a 5 cyn y Pasg. Roedd y gweithdai yn dysgu'r plant am berthnasoedd gwahanol a phwysigrwydd perthnasoedd positif. Roedd yn werthfawr iawn.

Celf

Mae waliau gwyn coridorau newydd yr ysgol wedi dechrau edrych yn fwy deniadol diolch i waith arbennig yr artist lleol Gemma Fala. Y mae hi wedi darlunio ein hantem Cenedlaethol ar hyd y coridorau gan ychwanegu darluniau gan y plant. Mae Gemma hefyd wedi creu murlun arbennig yn y coridor ar gyfer CC1 a CC2 ac wrthi'n darlunio murlun chwedlau ar gyfer CC3. Maen nhw'n edrych yn fendigedig!



EISTEDDFOD PONTYPRIDD 2025

Dydd Sadwrn 28 Mehefin
Capel y Bont, Ffordd
Gelliwastad, Pontypridd


Rhestr Testunau

<https://sites.google.com/hwbcymru.net/eisteddfod-pontypridd/rhestr-testunau>

Beirniaid:

Llenyddiaeth: Carwyn Eckley,
Eurgain Haf, Cynan Llwyd
Celf: Cai Morgan, Jack Osborne,
Jessica Moss
Cerdd: Delyth Medi, Patric Stephens
Llefaru: Garry Owen
Dysgwyr: Lowri Bunford Jones
Roc a phop - I'w gadarnhau
Cyfeilydd: Rhiannon Pritchard

Diolch Dewi! Ffrindiau'n Cofio



Golygydd: Myrddin ap Dafydd

Gwasg Carreg Gwalch, £11.99

Ni fu erioed yr un gyfrol goffa debyg iddi. Ond dyna ni, dim ond un Dewi Pws oedd yna.

Mae dros hanner cant o ffrindiau wedi sgwennu ysgrifau a cherddi i'w cyfrannu i'r gyfrol. Mae'r cyfan yn cofnodi cerrig milltir daearyddol ei fywyd – Treboeth a gwersylloedd yr Urdd, stiwdios Caerdydd a thafarnau Glannau Menai, meysydd golff a Thre-saith a lleoliadau braf yn Llŷn. Drwy'r cyfan – yn arbennig yn yr adran o doriadau o bapurau bro – cawn y teimlad cynnes fod Dewi yn perthyn i Gymru gyfan.

Mae'r sgwenwyr wedi creu darluniau cofiadwy a phersonol ohono mewn cyflwyniadau hynod o amrywiol. Ar ben hynny mae yma gasgliad difyr ac amlochrog o luniau o'r gwahanol gyfnodau. 'Go brin bod neb wedi gadael y fath drysorfa o atgofion amrywiol ar ei ôl', fel y dywed Dafydd Iwan.

Broliant y gyfrol:

Ffrindiau'n cofio

Gydag atgofion a llu o luniau ... dyddiau cynnar, gwersylloedd yr Urdd, y New Ely, Y Tebot Piws, Cwmni Theatr. Perfformiadau llwyfan a theledu, Edward H, Mynediad am Ddim. Aberystwyth, Tre-saith, Golff, Y banjo, Radwm, Glannau Menai, Nefyn a'r Parti Mawr yn Llŷn.

Drwy'r bröydd

Y Dyn Creu

Mae *Diolch Dewi!* – *Ffrindiau'n Cofio* ar werth mewn siopau llyfrau ledled Cymru, ar y we drwy wefan y wasg,

www.carreg.gwalch.cymru

a gwefan y Cyngor Llyfrau,

www.gwales.com



Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth

Gwobr Aur y Siarter Iaith

Braf iawn yw gallu cyhoeddi bod Ysgol Gwaelod y Garth, yn dilyn proses llwyddiannus o ddilysu, wedi derbyn Gwobr Aur y Siarter Iaith. Rydym yn falch iawn taw ein disgyblion angerddol, criw y Dreigiau Doeth, a fu wrthi'n paratoi am y wobwr, ac rydym yn falch iawn o bob un ohonynt am greu argraff arbennig wrth wneud. Mae'r angerdd dros eu Cymreictod a'r iaith yn heintus ymhlith y criw egnïol yma. Yn ddyddiol, mae eu gwaith yn amlwg ar draws yr ysgol wrth ddarllen amser cinio gyda'r plant ifanc, chwarae gemau, paratoi patrymau iaith wythnosol a llawer mwy. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonynt am ei harweiniad ac i Mrs Darch a Mrs Ellis am eu harweiniad hwythau. Llongyfarchiadau mawr!



Teithiau Preswyl Blwyddyn 4 a 5

Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn ffodus o allu manteisio ar dywydd ffafriol a braf y Gwanwyn ar eu taith preswyl i Maes y Fron ym Mannau Brycheiniog ar ddiwedd mis Mawrth. Cawsant antur arbennig yn dringo, mynydda, cerdded a llawer mwy yn yr awyr agored. Bu gwaith tîm arbennig yn amlwg ymhlith y disgyblion ac rydym yn falch o bob un ohonynt am fentro a chefnogi ei gilydd. Bydd atgofion y daith yn aros yn y cof am flynnyddoedd lawer. Mwynhau hefyd bu hanes Blwyddyn 4 ar eu taith preswyl hwythau i Ganolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd. Cafwyd deuddydd hynod prysur yn mwynhau'r holl sydd gan y Bae i'w gynnig, ac eto creu atgofion lu. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n staff ymroddgar am roi o'u hamser i gefnogi teithiau preswyl y disgyblion sydd

yn rhan mor bwysig o'u datblygiad.



Diwrnodau arbennig

Mae cefnogi diwrnodau dathlu diwylliannol ac elusennol yn ffocws rheolaidd i ni yma yn Ysgol Gwaelod y Garth ac yn rhan allweddol o ethos cymunedol ac egwyddorol yr ysgol. Ceisiwn bob amser i feddwl am ddulliau ystyrlon o nodi achlysur. Mae sawl diwrnod hwyliog iawn wedi bod dros yr wythnosau diwethaf sydd wedi rhoi cyfle i ni ddathlu, datblygu dealltwriaeth a chofio am achlysuron arbennig. Cawsom gyfle i wisgo porffor er mwyn nodi ein dealltwriaeth o epilepsi a chefnogi elusen **Epilepsy Action**. Diolch yn fawr iawn i griw 'Dinasyddion y Dyfodol' am drefnu'r achlysur ar ein rhan o dan arweiniad Mr Owen. Hwythau hefyd sydd wedi bod yn arwain ar drefnu ein casgliad Banc Bwyd misol, ar y cyd gyda Rotari'r Garth. Bellach, mae cyfle i ni gynnig rhoddion i'r **Banc Bwyd** ar ddydd Gwener olaf pob mis. Gall pawb yn y gymuned leol gyfrannu gan fod bocsys nid yn unig yn yr ysgol ond hefyd tu allan i Neuadd y Pentref a thu allan i dafarn Gwaelod y Garth. Cawsom cyfle i gefnogi'r **Down's Syndrome Association** ar Fawrth 21^{ain} a gwneud hynny trwy wisgo sanau od i'r ysgol. Roedd ambell olwg rhyfedd yn ein plith! Cawsom ddiwrnod o wisgo pinc er mwyn cofio ffrind annwyl iawn i ni ar Mawrth 28^{ain}, diwrnod arbennig iawn i bawb. Codwyd arian i gefnogi elusen Heart Heroes.

Bu dathlu da yn yr ysgol ar **Ddydd Miwsig Cymru** wrth i'r disgyblion i gyd greu offerynnau cerdd o ddeunyddiau wedi ailgylchu yn y cartref – bu hwyl mawr yn chwarae'r offerynnau yn yr ysgol. Er gwybodaeth i chi gyda, Rhedeg i Baris yw hoff gân disgyblion yr ysgol eleni! Cafwyd ddiwrnod tawelach o lawer ar **Ddiwrnod y Llyfr** am i ni ddewis dathlu trwy ddod i'r ysgol yn ein dillad cyfforddus i allu ymlacio i fwynhau llyfr a rhannu ein hoff lyfrau. Braf weithiau yw cael dod â chlustog a chael gwisgo pyjamas i'r ysgol!

Gweithdai Celf a Cherdd

Bu Blwyddyn 6 yn ffodus iawn i allu gwneud diwrnod cyfan o weithdy gyda'r anhygoel Rhiannon Roberts yn ddiweddar, gan drafod, dylunio a chreu murlun



arbennig iawn sydd yn nodi yr hyn sydd yn bwysig iddyn nhw am yr ysgol, y pentref a'n cymuned. Oes, mae cymaint i'w ddathlu! Byddwn yn datgelu'r murlun yn llawn cyn hir, ond yn y cyfamser dyma i chi flas ohono. Bu Blwyddyn 5 yn y cyfamser yn gweithio gyda'r talentog Mei Gwynedd i gyfansoddi ac yna recordio cân am emosiynau. Maen nhw wrthi bellach yn creu dawns a fidio i'r gân. Mae'r cyfan wedi bod yn brofiad arbennig iawn yn wir.



Eisteddfodau!

Mae hi wedi bod yn dymor Eisteddfodau, o'r Eisteddfod Ysgol llawn hwyl a chystadlu brwd i Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i Lys Garth ar eu buddugoliaeth yn yr Eisteddfod Ysgol eleni, a diolch i ddisgyblion Blwyddyn 6 am eu haeddfedrydd a'u hangerdd wrth cefnogi ac arwain.

Rydym yn hynod falch o lwyddiant disgyblion yr ysgol yn Eisteddfodau'r Urdd eto eleni. Rydym yn falch o bawb a gystadlodd ym mhob un o'r eisteddfodau. Bu llwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch i Heti ar yr Unawd B2 ac iau, i Isabella ar gystadlaethau llefaru i ddysgwyr B2 ac iau, i'r Parti Llefaru, y Parti Unsain a'r criw Perfformio Golygfa o Sgript gyda phawb yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Rhanbarth. Llwyddiant bu yno hefyd wrth i'r grwpiau i gyd dderbyn gwobrau yn eu cystadlaethau. Pob lwc i Isabella wrth iddi gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam. Da iawn chi, bob un, a diolch o galon i bob un aelod staff am eu gwaith arbennig yn paratoi a hyfforddi.

Mae dawnsywyr hynod talentog gyda ni yma yn Gwaelod y Garth a hynny'n amlwg yn **Eisteddfod Ddawns** y rhanbarth. Llongyfarchiadau mawr i bawb a bu'n cystadlu ar y Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Unigol a llongyfarchiadau mawr i Alaw, Rhys a Mabli ar eu gwobrau cyntaf, ail a thrydydd.

Ysgol Garth Olwg



Mwy o lwyddiant i dîm Rygbi Blwyddyn 9

Ar ddydd Gwener pedwerydd o Ebrill, 2025 gwnes i a fy ffrindiau chwarae mewn gêm fwyaf rydyn ni erioed wedi chwarae ynddi, rownd derfynol cwpan Cymru. Wrth i ni gerdded mas tuag at y bws gwnaeth y nerfau cicio mewn. Cerddon ni ar fws Cymru ar ôl cael lluniau ac wrth i'r Ysgol Isaf ein clapio ni ar y bws, roedd dim ond un peth ar ein meddwl sef ennill. Roedd y bws yn dawel ar y ffordd ond roedden ni'n gwybod beth oedd y gwaith ar ein dwylo, roedd un tîm yn mynd i gerdded i ffwrdd yn Bencampwyr Cymru ac roedden ni yn gwybod hynny felly gwnaethon ni gerdded oddi ar y bws a mynd syth i'r ystafelloedd newid. Fel roedden ni'n gwyllo gêm arall gwnes i feddwl rydyn ni'n cael siawns i fod yn bencampwyr Cymru ar Barc yr Arfau o flaen fy ffrindiau a theulu felly roedd wynebau gêm gyda ni. Roedden ni'n twymo i fyny a doedden ni ddim wedi gwneud un camgymeriad. Roedden ni mor barod. Roedden ni yn y twnel yn barod i chwarae, mor nerfus ond mor gyffrous. Edrychon ni ar y tîm arall cyn rhedeg allan o'r twnel ar y maes a chlywed bloedd o'r dyrfa.

Gwnaeth y chwiban fynd a'r dael gyntaf yn hedfan i fewn ac roedd dim ond un peth ar ein meddyliau, bwrw ein gelynyon yn ôl ac yn ôl am ein gilydd, fel tîm. Roedden ni 2 fetr i ffwrdd o'u llinell cais nhw a gwnaethon ni sgorio ein cais gyntaf gyda pick and go a mynd o dan y pyst i wneud y sgor yn 5-0 i ni a gwnaeth ein cicwr wneud e'n 7-0 gyda throsiad. Roedd y ddau dîm yn agos at ei gilydd am dipyn o amser mewn gêm gorfforol tu hwnt ac roedd ein cyrff yn blino yn barod. Gwnaethon ni gael line out 5 metr i ffwrdd o linell cais Brynteg a gyda symudiad perffaith gwnaethon ni sgorio a gwneud y sgor yn 12-0. Ond am weddill yr hanner cyntaf roedd Brynteg yn ymosod arnom ni yn galed ac yn gyflym ond roedd ein hamddiffynfa yn rhy dda ond roedd ein disgyblaeth wedi gadael ni i lawr gyda Brynteg yn cymryd cic gosb ar ddiwedd yr hanner i wneud y sgor yn 12-3 ar ddiwedd yr hanner.

Roedd y tîmau yn agos yn yr ail hanner ond gwnaethon ni sgorio gyda 10 munud i fynd i ennill y gêm a gwneud y sgor yn 19-3 i Garth Olwg. Gwnaeth y gêm orffen a gwnaethon ni gyd ddathlu a boddi yn y

teimlad o ennill a theimlad arbennig oedd e. Gwnaethon ni ddathlu gydag ein ffrindiau ar ôl y gêm ac am ddiwrnod oedd hi. Roedden ni gyd mor hapus a gwnaeth e suddo i mewn mai ni yw pencampwyr Cymru. Am ddiwrnod!

Gan Lewis Williams

Rygbi 7 pob ochr yr Urdd

Dyna beth oedd diwrnod arbennig, ennill cystadleuaeth rygbi'r Urdd saith pob ochr blwyddyn 9 ar gaeau Pontcanna Caerdydd. Dechreuodd y diwrnod yn dda yn yr heulwen. Y gêm gyntaf yn ei grwp oedd Ysgol Maes y Gwendraeth, gan guro nhw gyda 50-0. Yn ail daethom ni i fyny yn erbyn Ysgol St Albans ac eto yn curo gan 50-0. Ac yn olaf yn ein grwp chwaraeon ni yn erbyn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Roedd y tîm cyfan yn gyffrous gyda'r llwyddiant wrth ennill y grwp. Roedd hyn yn golygu ei bod ar frig y grwp ac wedi cyrraedd y 16 olaf.

Ar ôl bach o egwyl a bwyd ac ail wefru'r batris, bant a ni unwaith eto. Y tîm nesaf gwnaethon ni chwarae oedd Ysgol Bro Edern. Roedd y gêm hon yn fwy cystadleuol gan mai dim ond un cais wnaethon ni eu curo. Dyma ni trwyddo i'r 8 olaf yng Nghymru a dechreuodd y nerfau setlo i fewn. Yr ysgol nesaf i ni chwarae yn erbyn oedd Ysgol Gyfun Gwyr. Roedd hon yn gêm gystadleuol arall ond roedd gêm 7 pob ochr y bechgyn yn wir dangos ein gallu. Ymlaen i'r rownd gyn-derfynol lle gwnaethon ni wynebu un o'r ysgolion fwyaf ym myd rygbi yng Nghymru, Ysgol Glantaf, a gwnaethon ni guro nhw 19-7. Dyna beth oedd braint.

A dyma ni mewn i'r rownd derfynol arall yn erbyn Ysgol Whitchurch High. Roedd hon yn gêm o fodfeddi gyda Whitchurch yn mynd fyny un cais yn y munudau cyntaf ond gwnaethon ni ymladd nôl gyda thri chais cyn hanner amser gan fynd ar y blaen o 11 pwynt. Dechreuodd yr ail hanner a daeth Whitchurch nôl yn gryf gan sgorio 4 cais i ddod ar gêm i 29-28 iddyn nhw. Roedd y tensiwn i weld arnom, ond roedd y dorf tu ôl i ni. Yn ôl y



dyfarnwr roedd gennym ni 30 eiliad ar y cloc, roedd e angen bod nawr neu byth os roedden ni eisiau codi'r tlws yna. Dechreuon ni ymosod mewn i'r 22, teimlais y gallai hyn fod yn bosib. Yn y pen draw gwnaeth y bêl wneud ei ffordd at Jac Cox oedd wedi rhoi pas arbennig i Harri Jones a nesaf pas draw i fi. Edrychais i i'r dde ac roedd bwlch. Dyma oedd fy nghyfle i gymryd siawns ar gyfer y llinell gais. Camais i i'r dde ac yna troedio'r amddiffyn a dros y llinell. Wrth i mi roi'r bêl i lawr dyma'r dyfarnwr yn chwythu ei chwiban olaf. Rhedodd y bechgyn draw ataf i a dechrau'r dathliadau.

Roedd y rhyddhad o ennill yn y funud olaf yn fythgofiadwy. Dyna beth oedd diweddglô i dymor rygbi Ysgol Garth Olwg. Ni fyddai ein tîm wedi gallu cyflawni hyn heb gefnogaeth ein hathrawon Mr Jones a Mr Philips. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'm ffrindiau a'm cyd-aelodau ar y tîm am eu hymrwymiad.

Gan Tomos Graham

Llwyddiant Pêl-faged

Llongyfarchiadau enfawr i fechgyn Blwyddyn 7 ac 8 am ennill Cwpan Cymru Pêl-faged heddiw. Roedd y bechgyn wedi chwarae'n anhygoel. Llongyfarchiadau hefyd i Elliot am ennill chwaraewr y diwrnod! Da iawn chi!



Ysgol Garth Olwg (parhad)

Matilda

Matilda, am brofiad bythgofiadwy! Ers mis Medi mae'r adrannau celfyddydau yng Ngarth Olwg wedi bod yn brysur iawn yn creu cynhyrchiad anhygoel o Matilda. Mae'r sioe hon wedi sicrhau ffrindiau a fydd yn para am byth. Mae'r cast cyfan wedi bod yn paratoi am fisoedd ac wedi rhoi lan amser i wneud yn siŵr taw'r sioe hon yw'r un orau erioed. Roedd yr holl gast mor frwdfrydig trwy'r sioe. Roedd yn sioe llawn mwynhad a chaneuon oedd yn codi'r ysbryd i'r holl gast a chynulleidfia. Roedd yn bleser i greu cymaint o atgofion a byddwn yn eu cofio am byth. Rydyn ni wedi bod yn ddigon ffodus o allu bod yn rhan o'r chwe sioe dros y diwrnodau diwethaf a dyma'r diwrnodau fyddwn ni byth yn anghofio. Mae'r cast mor ddiolchgar i bob aelod o'r staff a chyn-ddisgyblion am eu cymorth a'u hamynedd i gynnal y sioe ac mi fyddwn yn cofio'r sioe hon am byth. Hefyd, rydyn ni eisiau rhoi diolch i'r prif gymeriadau am roi eu hamser i wneud yn siŵr ein bod ni'n cael sioe dda.

Gan Esmee Abraham a Mia Coombes Blwyddyn 9



Cwis Dim Clem

Yn ystod y tymor, bu'r 4 disgybl yma yn ein cynrychioli ni yng nghystadleuaeth CWIS DIM CLEM – sef cystadleuaeth gafodd ei threfnu gan Mentrau Iaith Cymru. Llwyddodd Anni Gwyn, Jacob Strange, Ellis Hardy a Charlie Thomas i ennill dwy rownd o'r gystadleuaeth ac yna dod yn gydradd drydydd yn y rownd cynderfynol. Gwych blantos!



Eisteddfod yr Ysgol

Cyn hanner tymor cynhaliwyd un o uchafbwyntiau'r flwyddyn – yr Eisteddfod ysgol. Roedd hi'n ddiwrnod o gystadlu brwd a gwelwyd llawer o dalent ar y llwyfan yn y Neuadd Chwaraeon. Clod mawr i bawb am gael yr hyder i fynd ar y llwyfan o flaen cannoedd o ddisgyblion! Llongyfarchiadau i Elsi Hughes, Nia Barnaby ac Elliw Porter am ennill y Gadair yn yr Eisteddfod a da iawn i Dowlais am gipio'r darian eleni!





Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth (Parhad)

Cafodd y Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo hefyd wobwr gyntaf. Da iawn chi! Pob hwyl iddyn nhw ac i Alaw ym Mharc Margam yn y Genedlaethol. Diolchwn i Miss Thomas am eu sgilau arbennig iawn yn hyfforddi.



Rygbi Tag yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi tag merched Blwyddyn 5 a 6 am gystadlu mor dda ac mor frwd yn nghystadlueaeth yr Urdd ym Mis Ebrill. Cafwyd diwrnod da iawn o fwynhau.



Ymdeoliad Mrs Herbert

Bu wythnos ola'r hanner tymor yn un emosiynol i bawb yn yr ysgol wrth i ni ffarwelio â'r hyfryd Mrs Herbert. Wedi deugain mlynedd o wasanaeth arbennig iawn i'r ysgol, bydd colled mawr ar ei hôl. Danfonwn dymuniadau gwresog i Anne ar gyfer ymdeoliad hir a hapus, gan ddiolch am bob cyfraniad gwerthfawr i'n hysgol



Cewch rhagor o hanesion yr ysgol ar ein gwefan www.gwaelodygarth.co.uk ac ar ein cyfrif Instagram [@gwaelodygarth](https://www.instagram.com/gwaelodygarth)

Ysgol Garth Olwg (parhad)

Cracio'r Pasg

Ar Ebrill y laf, cerddodd plant B5 draw i Gapel Salem yn Nhonteg er mwyn cymryd rhan yng ngweithgareddau Cracio'r Pasg. Bu'r disgyblion yn dysgu llawer am stori'r Pasg gan Mr Coleman, Mrs Roylance, Mr Johnson a chyn-gynorthwyr i'r ysgol, Mr Hughes. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonoch am eich gwaith a'ch amser gyda'r plant.



Adfywio Siarad a Siocled

Penderfynodd grŵp o ferched B6 i greu clwb newydd i'n hadran – sef Y Clwb Cymraeg. Bwriad y clwb yw i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn sgîl hyn, trefnodd aelodau'r grŵp i adfywio Clwb Siarad a Siocled er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ein hadran i chwarae gemau llafar yn ystod amser cinio ar ddydd Mawrth. Erbyn hyn, mae'r clwb yn mynd o nerth i nerth.



YR OLWG
Heol Sant Iltid, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ



**Arad Goch
SGLEINIO'R LLEUD**

Gwaith Byrti a Bwbw yw sgleino'r lleud. Pan mae Pwnic yn dweud wrth y ddau am beidio gwneud hynny? O diar, bydd y byd i gyd yn dywyll! Yna, mae rhywbeth hudolus yn digwydd.....

20.06.25 10:30 & 13:00

**FFAIR HAF
YR OLWG**

**05.07.25
10:30 - 3:30**

Cysylltwch i archebu stondin!
01443 570075

AM FWY O WYBODAETH

WWW.RCT-THEATRES.CO.UK





Merched y Wawr Cangen y Garth

Dewi Lewis - taith hudol i Batagonia

Mis diwetha' cawsom ni gwmmi yr hynaws Dewi Lewis o Glydach, via Porthmadog - ac fe'n tywysodd ar daith arbennig iawn i Batagonia bell.



Man cychwyn Dewi oedd englyn hyfryd y diweddar Dic Jones 'Fy Nymuniad' sy'n dweud y cyfan am y cariad at bobol a brofodd tra'n teithio gyda Nerys, ei wraig a'r deugain difyr arall fu'n profi croeso a charedigrwydd Cymry Patagonia nôl ym mis Tachwedd.

Gweld, ryw adeg, aildroedio - yr undaith,
A'r un ffrindiau eto,
Yr un hwyl, a'r un wyllo,
Yn ôl y drefn yr ail dro.

Mor wir! Am fan cychwyn ysbrydoledig i sgwrs ysbrydoledig! Rhannodd Dewi atgofion cynnes iawn gyda'i gynulleidfa werthfawrogol yn y Clwb Rygbi. Trwy gyfrwng rhyw bymtheg o sleidiau cawsom ddilyn ei daith - o'r ymgynnull yn Heathrow - a gwneud ffrindie oes ar yr hediad allan i Buenos Aires. Cyfarfod tywyswyr anhygoel - Clare ac Alun Iâl - fu'n gofalu am y pererinion am gwta dair wythnos - o fore gwyn tan nos. Cyrraedd Puerto Madryn lle glaniodd y teithwyr talog bron i 160 o flynyddoedd yn ôl! Profi cynhesrwydd y croeso gan y Cymry sy'n galw Trelew a'r Gaiman yn gartref - cofio'r asado cynta' - y bwyd, y gwin, y canu a'r cynhesrwydd - y cymdeithasu!

Ein cyflwyno i Berwyn, y gyrrwr bws annwyl, fu gyda'r criw trwy gydol y daith Ac atgof hollol gyfriniol o Rhys Meirion yn morio canu gyda'r annwyl Billy Hughes, o dan y goeden wrth i'r haul fachludo. Er nad oedd Billy erioed wedi profi bywyd Cymreig/Cymraeg



Rhys Meirion a Billy Hughes



Bedwyr y gyrrwr bws

roedd geiriau pob un cân, emyn ac alaw werin ganddo ar ei gof! Gallwn ymhelaethu! Roedd gan bob un sleid ei stori - y plant ysgol, y capeli, y clybiau rygbi, yr amgueddfeydd, y cofgolofnau, y BOBOL! Dilynwyd y daith - ar draws y paith, maith, o'r dwyrain i'r gorllewin - o Ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd! Codwyd ton o hiraeth yng nghalonau rhai oedd ddigon ffodus i fod wedi ymweld â Phatagonia ac enynnwyd chwilfrydedd yn y rhai sy'n meddwl am fynd! Diolch o galon Dewi am ein tywys ar daith go arbennig!

Mis Mai - byddwn yn cael cwmni Kath Morgans - y bêl-droedwraig ryngwladol, angerddol! A ninne ar drothwy Cwpan y Byd! Dewch yn lli i wrando ar hanes Kath, ei barn gref am bêl-droed merched a'i dyheadau! P'nawn Mercher, Mai 21ain am ddau - yn y Clwb Rygbi!

Derbyn Marc Safon Dibynadwy

Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn falch i gyhoeddi ein bod ni wedi ennill y Marc Elusen Dibynadwy Lefel 1 gan gydnabod y gwaith rhagorol yr ydym yn gwneud fel sefydliad trydydd sector yng Nghymru. Dyma'r ail waith i ni fod yn llwyddiannus, gyda'r broses hwn sydd yn digwydd bob tair mlynedd.

Miri Mawr Mai a Mehefin

Ar ôl digwyddiadau llwyddiannus yn Llantrisant, Abercynon, Ystrad ac Aberdâr, Mae partneriaid Cymraeg y sir yn edrych ymlaen at gynnal digwyddiadau ym Mhendyrus a'r Ddraenen Wen ym mis Mai a Mehefin. Digwyddiad am ddim i blant meithrin a'u teuluoedd yw Miri Mawr. Dewch am fore o hwyl gyda Mel o Glwb Caru Canu, llwyth o weithgareddau a chrefftau a chyfle i ddysgu mwy am addysg Gymraeg a'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Iaith gyda'r teulu yn yr ardal!

21.05.25 Miri Mawr Mai Canolfan Hamdden Rhondda Fach 10:00 – 12:00

25.06.25 Miri Mawr Mehefin Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen 10:00 – 12:00

Archebwch le trwy Eventbrite nawr!
www.eventbrite.co.uk/o/menter-iaith-rhondda-cynon-taf-40559451563

Dyddiadau i'r dyddiadur!

21.06.25 – Parti Bach Ponty + Gig Clwb y Bont

24.06.25 – Y Cwis Mawr

27.06.25 – Parti Pwll Ponty

Am y newyddion diweddaraf - Dilynwch ni!

Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe

Facebook: @MenterIaithRhCT

Instagram: @menteriaithrhct

Gwefan: www.menteriaith.cymru

E-bost: post@menteriaith.cymru

Ffôn: 01443 407570

Clwb Rygbi Pentyrch

Nos Wener, 25 Ebrill, daeth y cyfle i edrych nol dros y tymor a gwobrwyo'r chwaraewyr oedd wedi creu argraff dros y gaeaf. Heb os, y llwyddiant mawr oedd record yr ail dîm - ennill 21 o'u 22 gêm i gipio'r Bencampwriaeth - yn rhyfeddol 38pt yn glir o Lanharan oedd yn yr ail safle. Clod i'r tîm laf hefyd a orffennodd yn gyffyrddus yng nghanol yr Adran gan ennill mwy nag a gollwyd, ac i'r tîm Ieuenctid a frwydrodd yn galed i orffen â record 50% o lwyddiant

A dyma restr enillwyr y Tlysau -
Tîm laf

Chwaraewr y Flwyddyn: Adam Conway

Dewis y Chwaraewyr Sam Hurley

Dewis y Cefnogwyr Sam Hurley

Y mwyaf addawol: Theo Brew a Rhys Lynch

Yr Ail Dîm - Yr Hyrddod

Chwaraewr y Flwyddyn: George "Toulouse" Coxall a Craig Coleman

Dewis y Chwaraewyr Kieran Williams

Cyfraniad i'r tîm Jac Harries

Mwyaf Addawol Malachi Laugharne

Ieuenctid

Chwaraewr y Flwyddyn Sam Hurford

Dewis y Chwaraewyr Frazer Lazkey

Cyfraniad i'r Tîm Lewis Jones

Mwyaf Addawol Oli Davies

Gwobr Arbennig Cyfraniad i'r Clwb: Luke Williams



Y Noson Wobrwyo

Ymwelwyr o Lydaw

Deng mlynedd ar hugain yn ôl ar Wyl y Banc Mis Mai aeth criw o Bentyrch ar antur i Lydaw i chware gêm yn erbyn Plabennec, ac mae'r cysylltiad yn parhau! Nos Iau cyrhaeddodd 56 o'r Llydawyr yn orie mân y bore i gynnal y traddodiad - cysgu ar lawr y clwb ac mewn pebyll ar faes y Dwyrlyn. Taith o gwmpas Stadiwm y Principality ddydd Gwener, a dwy gem fore Sadwrn i'r timoedd dan 16 a'r Ieuenctid cyn croesi nôl i Lydaw dros nos!! Da gweld bod y berthynas yn dal i lewyrchu.



Y Llydawyr yn gwersylla yn yr haul ar Barc y Dwyrlyn



Adam Conway gyda'r hyfforddwr Mark Barrington



Mark Barrington gyda Sam Hurley

ymchwil cancer
cymru
cancer research
wales

Helpwch i uno Cymru yn erbyn cancer trwy adael rhodd i ni yn eich Ewyllys.

Ymchwil Cancer Cymru ydi'r elusen ymchwil cancer Gymreig annibynnol.

Rydym yn buddsoddi ein holl wariant ymchwil yma yng Nghymru.

Bydd eich cefnogaeth yn helpu ni i ddod â thriniaethau gwell yn nes adref.

ymchwilcancer.cymru

Ymchwil: Mae yn ein DNA
Gobaith: Mae yn ein DNA
Cymru: Mae yn ein DNA

Rhif elusen gofrestredig: 1167290

Llanhari yn Dathlu 50 Mlynedd

Fel rhan o ddatliadau Ysgol Llanhari cyhoeddwyd llyfr sy'n olrhain hanes cychwyn yr ysgol a'r llwyddiannau diri dros y blynyddoedd.

Pan benodwyd Mr Merfyn Griffiths yn brif-athro cyntaf yr ysgol roedd y dalgylch yn cynnwys Maesteg, Penybont, Tonyrefail, Garth Olwg, Gwaelod y Garth, Bryntaf, Penarth a'r Barri. Penodwyd naw athro llawn amser, yn ogystal â nifer o athrawon rhan amser ac ysgrifenyddes. Ar ddydd Llun yr ail Fedi 1974 agorwyd drysau Ysgol Gyfun Llanhari i groesawu disgyblion cyntaf yr ysgol - cant a hanner ohonynt.



Pennaethiaid Llanhari



Rhian Phillips, Meinir Thomas y Pennaeth presennol, Meirion Stephens, Peter Griffiths ac Anne Morris yn y dathliad



Y diweddar Merfyn Griffiths, y Prifathro cyntaf, gyda'r athrawon gwreiddiol.

CYMANFA GANU ABERDÂR

Annwyl Olygydd,

Carwn eich gwahodd darllenwyr Tafod-Elái i ddathlu penblwydd Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yn 75 mlwydd oed. Yn ogytal â chyngerdd marweddog, cynhelir cymanfa Ganu nos Sul, Mai 18fed yng Nghapel Green Street, Aberdâr am 6.30 p.m. Carys Crimmings yw'r arweinyddes wadd. Marc Jon Williams yw'r organydd a Huw Landeg Morris yw llywydd y noson. Mae'r Gymanfa hefyd yn gyfle i ddathlu Dydd Ewyllys Da.

Roedd Idwal Rees, prifathro cyntaf yr ysgol, yn frwd dros Ganiadaeth y Cysegr. Bu'n weithgar wrth drefnu cymanfaoedd canu ac yn eu harwain ar hyd ac ar led Cwm Cynon. Bu canu emynau yn arbennig o bwysig i'r ysgol fel y bydd ei chynddisgyblion yn tystio. Ysgrifennwyd geiriau anthem yr ysgol gan Elfed pan ymwelodd Mr Rees a llawer o blant a chartref y cyn-archdderwydd ym Mhenarth. Canwyd "Yn y cwm ac ar y mynydd," i'r dôn Groeswen byth ers hynny.

Mae i Aberdâr ei le arbennig yn hanes y Gymanfa Ganu. Yma y cynhaliwyd y Gymanfa fodern gyntaf. Yn ôl Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru gan R.D. Griffith (Gwasg Prifysgol Cymru), dywedai Ieuan Gwyllt i gyfarfod cyntaf yr Undeb gael ei gynnal yn Neuadd Ddirwestol Aberdâr, 4 Ebrill, 1859.

Bydd côr yr ysgol bresennol yn yr wyl i ganu eitem neu ddau. Afraid dweud y cenir llawer o emynau cyfarwydd ar y noson a gobeithir y bydd yn esgus inni ddathlu twf y Gymraeg yng Nghwm Cynon.

Yn gywir,

Gwyn Morgan (Ysgrifennydd Cymanfa Ganu Aberdâr).

MEHEFIN 2025

THE BIG LUNCH
Y CINIO MAWR

Y Cinio Mawr yw'r esgus perffaith i ddod at eich gilydd a dathlu eich cymuned.

Bydd miloedd o bobl yn cymryd rhan ledled Cymru wrth rannu bwyd, cyfeillgarwch a hwyl gyda'i cymdogion.

Ymunwch yn yr hwyl wrth gynnal Cinio Mawr yn eich cymuned chi.

Ewch i
WWW.YCINIOMAWR.COM
i archebu pecyn am ddim ac i gofrestru eich Cinio Mawr ar y map.

Menter Caerdydd



Mis Mai gyda'r Mentrau

Mae Menter Iaith Bro Morgannwg wedi croesawu dau aelod newydd i'r tîm yn ddiweddar – Aled Wyn Phillips fel Rheolwr Gwasanaeth a Gwen Davies fel Swyddog Gweithgareddau Cymunedol. Bydd y ddau yng nghanol y bwrlwm yng Ngŵyl Fach y Fro felly dewch draw i Ynys y Barri i ddweud 'Helô!'

Dydd Sadwrn, 17 Mai yw diwrnod yr ŵyl eleni a'r lein-yp gwyh yn cynnwys Tara Bandito, Bwncath, Gai Toms, Dadleoli, Taran, Dagrau Tân, Do Rei Mi a phlant a phobl ifainc o ysgolion y Fro. Wedi llwyddiant eu cynhyrchiad o 'Les Misérables', mae disgyblion Ysgol Bro Morgannwg wedi dysgu detholiad o'r caneuon i blant o ysgolion cynradd y sir. Mae cryn edrych ymlaen at eu perfformiad mawreddog pan fydd pawb yn dod at ei gilydd i gyd-ganu.

Gall ymwelwyr â'r ŵyl hefyd fwynhau gwledd i'r glust a'r llygad gan y cwmni theatr a dawns *Kitsch n Sync Collective* a'r band gwerin amgen, Lo-fi Jones, sydd wedi cydweithio i greu sioe unigryw.

Boed law neu hindda bydd hi'n ddiwrnod llawn hwyl gyda'r stondinau amrywiol yn gwerthu crefftiau, llyfrau a bwydydd o bob math.

Sgwrs y Mis (Zoom)

Natur a chanfyddiad lliw fydd dan sylw yn ein sgwrs nesaf yng nghwmni'r gwyddonydd, yr Athro Deri Tomos nos Iau, 22 Mai.

Awn ar daith o gyfnod yr Hen Roegiaid trwy fyd ffasiwn a fideo, i'r ymchwil diweddaraf i'r ymennydd. A ydym i gyd yn canfod yr un lliwiau? Bydd Kyffin Williams a'i brofiad o epilepsi yn rhan fach o'r hanes, heb sôn am ddawn ambell ferch i weld lliwiau mewn dimensiwn gwahanol i'r gweddill ohonom. **Pris:** £5 y sesiwn neu £20 am weddill 2025.

Gweithgareddau awyr agored

Dros fisoedd y gaeaf, rydym wedi mwynhau nifer o deithiau tywys dan do fel yr un diweddar ag Archifau Morgannwg. Yn ystod yr haf, byddwn yn manteisio ar y cyfle i gael ychydig o awyr iach gyda nifer o weithgareddau awyr agored wedi'u trefnu gan ddechrau gyda sesiwn Cerdded a Chlonc ym Mharc y Rhath ar fore Mawrth, 20 Mai.

Eleni am y tro cyntaf cynhelir sesiynau Cerdded a Chlonc am 6.00 yr hwyr er mwyn rhoi cyfle i bobl ddod am dro ar ôl gwaith. Y ogystal, bydd nifer o deithiau tywys ar y Sul gan gynnwys Taith Tafwyl yn ardal Llanisien, ddydd Sul, 8 Mehefin; taith hanes y Mhontypridd yng nghwmni Wil Morus Jones ar brynawn Sul, 27 Gorffennaf a thrip cwch i Ynys Echni ar fore Sul, 31 Awst. Byddwn hefyd yn ymweld â Gardd Berlysiau y Bont-faen, nos Iau, 26 Mehefin i glywed hanes yr ardd a'i phlanhigion. **Prisiau yn amrywio.**

Plant a Phobl Ifainc

Wedi llwyddiant y tymor cyntaf, bydd y Clwb Gwyddbwyll yn parhau i blant ym mlynnyddoedd 2-6, bob prynawn Gwener am 3.45 yn Hyb Treganna. Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim. Cofiwch fod Amser Stori yn cael ei chynnal mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y brifddinas a'r Fro. Noder bod y sesiynau newydd, bob yn ail wythnos yn Hyb Rhydpennau, bellach yn dechrau am 10.30 yn lle 11.00.

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Cadwch y dyddiad:

Mewn Tiwn, Canolfan Beulah – bore Llun, 9 Mehefin am 11.30 yng nghwmni 'Dwy' (Enlli a Lleucu Parri)
Tafwyl - 13 + 14 Mehefin, Parc Bute
Y Cwis Mawr (siaradwyr newydd) – nos Iau, 17 Gorffennaf, 6.00yh yn Snails, Rhiwbeina

YNYS Y BARRI

GWYL FACH Y FRO

17 MAI 2025
11YB - 8YH

TARA BANDITO
BWNCATH
GAI TOMS DADLEOLI
TARAN DAGRAU TÂN
YSGOLION BRO MORGANNWG DO REI MI
LO-FI JONES KITSCH N SYNC THE SPARKLETTES

LLWYFAN Y TRAETH
STONDINAU
CHWARAEON

GLANFA GWYNFOR
GWEITHDAI
BAR • BWYD

GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED HAF 2025

Bore Mawrth 20.05
Cerdded a Chlonc: Parc y Rhath - 10.30-12.00

Prynawn Sul 08.06
Taith Tafwyl: Llanisien - 14.00-16.00
Cyfle i ddysgu am hanes yr ardal

Nos Iau, 26.06
Gardd Berlysiau'r Bont-faen, 18.00-19.30

Nos Fawrth, 08.07
Cerdded a Chlonc: Fferm y Fforest - 18.00-19.30

Prynawn Sul, 27.07
Taith Hanes: Pontypridd - 14.00-17.00
yng nghwmni Wil Morus Jones

Nos Fawrth, 12.08
Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien - 18.00-19.30

Nos Fawrth, 19.08
Cerdded a Chlonc yn y Fro 18.00-20.00 - Penarth

Bore Sul, 31.08
Taith Dywys i Ynys Echni/Flat Holm - 08.00-12.30

mentercaerdydd.cymru
rachel@mentercaerdydd.cymru

MC Rhif Elusen: 1098606, Rhif Cwmni: 4576565
MIB: Rhif Elusen: 179555, Rhif Cwmni: 08667706